RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
88/2024
DYDDIAD CYHOEDDI:
12/12/2024

# Gwerthusiad proses Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-83625-985-5

Gwerthusiad proses Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru

Awduron: Joe Duggett, Joanne Barber, Luke Bailey-Withers, Ana Luísa Pires Fernandes, Mark Beynon

Adroddiad ymchwil llawn: Duggett, J; Barber, J; Bailey-Withers, L; Pires Fernandes, A L; Beynon, M. (2024). *Gwerthusiad proses Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 88/2024

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cynllun-mor-physgodfeydd-cymru-gwerthuso-prosesau-gwerthuso-prosesau

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Aimee Krishan

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwilhinsawddacamgylchedd@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**


Rhestr tablau....................................................................................................2

Rhestr ffigurau ....................................................................................................3

Geirfa…………………… ...................................................................................4

1. Rhagymadrodd..............................................................................................5

2. Methodoleg ....................................................................................................9

3. Trosolwg o WMFS........................................................................................16

4. Myfyrio gan ymgeiswyr y cynllun ................................................................32

5. Myfyrio gan y sector morol a physgodfeydd ...............................................42

6. Dysgu gan raglenni eraill..............................................................................52

7. Casgliadau ...................................................................................................63

8. Argymhellion ................................................................................................70

Atodiad A: Cyfweleion sy’n rhanddeiliaid ........................................................74

Atodiad B: Canllawiau pwnc cyfweliadau ag ymgeiswyr ..................................75

Atodiad C: Canllawiau pwnc cyfweliadau â rhanddeiliaid ................................81

Atodiad D: Canllawiau pwnc cynlluniau cymharu ............................................83

Atodiad E: Holiadur e-arolwg ...........................................................................85

Atodiad F: Canllawiau pwnc cyfweliadau dilynol gyda’r sector ehangach ..........106

**Rhestr tablau**

Tabl 2.1: Nifer yr ymgeiswyr a chyfweliadau: Ymgeiswyr llwyddiannus ................................ 11
Tabl 2.2: Nifer yr ymgeiswyr a chyfweliadau: Ymgeiswyr aflwyddiannus / a dynnodd yn ôl. 11
Tabl 3.1: Nifer y pysgodfeydd yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig (2021-2022): Rheolaidd .. 20
Tabl 3.2: Nifer y pysgodfeydd yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig (2021-2022): Rhan amser ........................................................................................................................ 20
Tabl 3.3: Trosolwg o dri chylch cyntaf cylchoedd ariannu WMFS ........................................ 26
Tabl 3.4: Nifer yr ymgeiswyr a hawliadau a gymeradwywyd yn ôl cylch .............................. 30

**Rhestr ffigurau**

Ffigur 3.1. Mynegai nifer y cychod a thunelledd gros ar gyfer Cymru a’r DU rhwng 2017 – 2022 (gwerth yn 2017=100) ........ 19
Ffigur 3.2. Incwm pysgota fesul FTE yng Nghymru a’r DU (2008-2023) ........ 21

**Geirfa**

| **Acronym** | **Diffiniad** |
|---|---|
| CaSP Cymru | Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru |
| DoDd | Datganiad o Ddiddordeb |
| EMFF | Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop |
| GT | Tunelledd Gros |
| MAGWF | Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Bysgodfeydd Cymru |
| MMO | Sefydliad Rheoli Morol |
| RPW | Taliadau Gwledig Cymru |
| WMFS | Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru |
| UE | Undeb Ewropeaidd |

# 1. Rhagymadrodd

## Trosolwg o Gynllun Môr a Physgodfeydd Cymru

1.1 Ym mis Rhagfyr 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Môr a Physgodfeydd Cymru (WMFS). Cynlluniwyd WMFS i "gefnogi twf amgylcheddol ac economaidd gynaliadwy yn niwydiant bwyd môr Cymru ac annog cymunedau arfordirol Cymru i ffynnu".[1]

1.2 Mae'r WMFS yn defnyddio pwerau newydd i Weinidogion Cymru sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Pysgodfeydd 2020 y DU, a chyfres o reoliadau a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru yn 2022. Mae'r cynllun ei hun yn cynnwys cylchoedd ariannu cyfnodol sy'n targedu amcanion polisi penodol. Gall pob cylch gwmpasu un neu fwy o 18 gweithgaredd cymwys gwahanol.[2] Tri chylch ariannu cyntaf WMFS oedd:

- Cylch 1: Mesurau Marchnata (Rhagfyr 2022 – Mawrth 2024) gyda'r nod o gefnogi mentrau marchnata ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu. Roedd hon yn broses ymgeisio dau gam.
- Cylch 2: Effeithlonrwydd Ynni a Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd (Ionawr 2023 – Mawrth 2024) prosiectau ymchwil wedi'u hariannu, gyda'r nod o ddeall, sefydlu llinellau sylfaen, a lleihau allyriadau carbon. Roedd hon yn broses ymgeisio dau gam.
- Cylch 3: Iechyd a Diogelwch (Medi 2023 – Mawrth 2024) gyda'r nod o wella hylendid, iechyd, diogelwch, lles ac amodau gwaith i bysgotwyr a gweithwyr dyframaethu trwy offer iechyd a diogelwch. Roedd hon yn broses ymgeisio un cam.

1.3 Trafodir y cefndir a'r cyd-destun ar gyfer WMFS a'i weithrediad ymhellach yn Adran 3 yr adroddiad.

---

[1] Llywodraeth Cymru (2022) Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru: canllawiau perthnasol i bob rownd
[2] Ibid.

**Y gwerthusiad**

1.4 Ym mis Rhagfyr 2023, comisiynodd Llywodraeth Cymru SQW i gynnal gwerthusiad proses o dri chylch cyntaf WMFS: Mesurau Marchnata, Effeithlonrwydd Ynni a Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd, ac Iechyd a Diogelwch. Cynhaliwyd y gwerthusiad rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Medi 2024.

1.5 Nid yw'r cylch ariannu cyffredinol diweddaraf (a agorwyd ar gyfer ceisiadau ym mis Chwefror 2024) yng nghwmpas y gwerthusiad hwn.

*Nodau'r gwerthusiad*

1.6 Mae gan WMFS y gallu i gefnogi cylchoedd ariannu yn y dyfodol, felly ystyriodd Llywodraeth Cymru ei bod yn amserol i werthuso a deall y broses weithredu hyd yma. Bydd yr hyn a ddysgir o'r gwerthusiad hwn yn llywio'r gwaith o gynllunio a gweithredu cylchoedd ariannu'r dyfodol. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau bod WMFS yn gallu darparu cymorth priodol ac sydd wedi'i dargedu'n dda i sectorau morol, pysgodfeydd a dyframaethu Cymru, ac ymgysylltu'n llawn â hwy, wrth iddynt addasu i amodau heriol y farchnad.

1.7 Yn benodol, prif nodau'r gwerthusiad hwn yw:

- Archwilio sut mae'r cylchoedd ariannu cyntaf wedi'u cyflawni gan gynnwys eu llwyddiannau, meysydd i'w gwella a'r gwersi a ddysgwyd.
- Deall a ellir dysgu unrhyw wersi gan Weinyddiaethau eraill y DU sy'n darparu cynlluniau tebyg.
- Deall a yw WMFS yn diwallu anghenion y sector morol a physgodfeydd mewn perthynas â marchnata, effeithlonrwydd ynni a lliniaru newid yn yr hinsawdd, ac iechyd a diogelwch.

*Cwestiynau ymchwil y gwerthusiad*

1.8 Mae'r cwestiynau ymchwil ar gyfer y gwerthusiad wedi'u rhestru isod:

- Cwestiwn ymchwil 1: Pa weithgareddau sydd wedi'u cyflawni gan WMFS trwy'r canlynol: cylch ariannu mesurau marchnata, cylch ariannu effeithlonrwydd ynni a lliniaru newid yn yr hinsawdd, cylch ariannu iechyd a diogelwch?

- Cwestiwn ymchwil 2: Beth sydd wedi gweithio'n dda am y broses ymgeisio a gweithrediad WMFS hyd yma, gan ystyried: cylch ariannu mesurau marchnata, cylch ariannu effeithlonrwydd ynni a lliniaru newid yn yr hinsawdd, cylch ariannu iechyd a diogelwch?
- Cwestiwn ymchwil 3: Beth sydd heb weithio'n dda o ran proses ymgeisio a gweithrediad WMFS hyd yma, gan ystyried: cylch ariannu mesurau marchnata, cylch ariannu effeithlonrwydd ynni a lliniaru newid yn yr hinsawdd, cylch ariannu iechyd a diogelwch?
- Cwestiwn ymchwil 4: Pa welliannau y gellid eu gwneud i'r broses ymgeisio a chyflawni ar gyfer cylchoedd ariannu WMFS yn y dyfodol?
- Cwestiwn ymchwil 5: Sut un fu'r broses ymgeisio, cyflawni a hawlio a/neu gyfathrebu ym mhrofiad y rheini a ymgeisiodd yn Gymraeg?
- Cwestiwn ymchwil 6: I ba raddau y diwallwyd anghenion y sector mewn perthynas â mesurau marchnata ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu, effeithlonrwydd ynni a lliniaru newid yn yr hinsawdd ac iechyd a diogelwch – ym marn ymgeiswyr a rhanddeiliaid?
- Cwestiwn ymchwil 7: Beth yw'r rhesymau pam y gallai unigolion, sefydliadau a busnesau yn y sector morol a physgodfeydd fod wedi dewis peidio â gwneud cais am gyllid trwy WMFS?
- Cwestiwn ymchwil 8: A fu unrhyw ganlyniadau anfwriadol darparu cyllid trwy WMFS?
- Cwestiwn ymchwil 9: Pa wersi y gellir eu dysgu gan Weinyddiaethau eraill y DU sy'n darparu cynlluniau ariannu tebyg?
- Cwestiwn ymchwil 10: A oes unrhyw effeithiau tymor byr i'w gweld o'r WMFS?

1.9 Fel y dangosir gan y cwestiynau, er bod y prif ffocws ar faterion proses, ceisiodd y gwerthusiad hefyd ganfod unrhyw dystiolaeth o effeithiau tymor byr hyd yma (Cwestiwn ymchwil 10). O ystyried nad oedd unrhyw ymgeiswyr llwyddiannus yng Nghylch 1, a dim ond un yng Nghylch 2, roedd y ffocws ar archwilio effeithiau tymor byr Cylch 3 (e.e. gwell diogelwch, atal damweiniau). Nid oedd y gwerthusiad yn

gallu ystyried Cwestiwn ymchwil 5 ‘Sut un fu’r broses ymgeisio, cyflawni a hawlio a/neu gyfathrebu ym mhrofiad y rheini a ymgeisiodd yn Gymraeg?’ oherwydd ni wnaeth unrhyw ymgeiswyr gais yn Gymraeg. Ni wyddys pam na wnaeth unrhyw ymgeiswyr gais yn Gymraeg.

**Strwythur yr adroddiad**

1.10 Mae’r adroddiad hwn wedi’i strwythuro yn y modd canlynol:

- Adran 2: Methodoleg
- Adran 3: Trosolwg o WMFS
- Adran 4: Sylwadau gan ymgeiswyr y cynllun
- Adran 5: Myfyrio gan y sector morol a physgodfeydd
- Adran 6: Dysgu gan raglenni eraill
- Adran 7: Casgliadau
- Adran 8: Argymhellion

## 2. Methodoleg

2.1 Mae’r adran hon yn nodi dull ymchwil a dadansoddi y gwerthusiad, a’r heriau yn ymwneud â chasglu data y dylid eu hystyried wrth ddehongli’r dystiolaeth.

**Dull ymchwil**

2.2 Mae’r gwerthusiad wedi mabwysiadu dull ansoddol yn bennaf, sydd wedi cynnwys triongli’r dystiolaeth a gasglwyd o amrywiaeth o safbwyntiau er mwyn asesu’r gweithredu hyd yma a nodi argymhellion ar gyfer gweithredu’r cynllun wrth symud ymlaen. Mae’r rhesymeg dros fabwysiadu dull ansoddol yn bennaf yn adlewyrchu ffocws y cwestiynau ymchwil (h.y. ar broses) a’r niferoedd bach o ymgeiswyr ar gyfer y tri chylch ariannu cyntaf, a gyfyngodd ar y potensial ar gyfer dadansoddiad meintiol. Mae’r gwerthusiad wedi cynnwys y tasgau canlynol:

- Cyfweliadau cwmpasu gyda thri chynrychiolydd o Dîm Polisi Ariannu’r Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru ac un uwch reolwr proses yn Nhaliadau Gwledig Cymru (RPW). Cyfwelwyd yr unigolion yn ystod y cam cwmpasu oherwydd eu profiadau wrth ddylunio a gweithredu WMFS.
- Adolygiad o ddeunyddiau cefndir, gan gynnwys dogfennaeth strategol ac ar lefel cynllun megis y Cynllun Morol Cenedlaethol, Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd, a dogfennau canllaw cynllun sydd ar gael ar-lein i ymgeiswyr.
- Dadansoddi data eilaidd i roi darlun lefel uchel o faint, nodweddion a chwmpas gofodol y sector morol a physgodfeydd yng Nghymru ar hyn o bryd ac yn ddiweddar (gweler paragraff 2.7 am ragor o wybodaeth).
- Cyfweliadau gydag ymgeiswyr llwyddiannus (chwech) ac aflwyddiannus (dau) o ddau gylch WMFS (Effeithlonrwydd Ynni a Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd ac Iechyd a Diogelwch) (gweler Atodiad B ar gyfer canllawiau pwnc y cyfweliad). Manylir ar y dull samplu ym mharagraffau 2.3 a 2.4 isod.
- Dau arolwg: (i) arolwg ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus (Iechyd a Diogelwch yn unig) a dderbyniodd bum ymateb a (ii) arolwg o’r rhai na dderbyniodd arian, a oedd yn agored i’r rheini a ymgeisiodd am gyllid WMFS ond a oedd yn aflwyddiannus a’r sector ehangach na wnaeth gais am gyllid (gweler Atodiad E). Cafodd yr arolwg ei gyfeirio yn ôl a oeddent wedi cyflwyno cais i un o’r tri chylch

ariannu cyntaf ai peidio. Ni dderbyniodd yr arolwg unrhyw ymatebion gan ymgeiswyr aflwyddiannus a chwe ymateb gan y sector ehangach. Ar ddiwedd yr arolwg gofynnwyd i ymatebwyr na wnaeth gais i gylchoedd WMFS o fewn cwmpas y gwerthusiad rannu eu manylion cyswllt os oeddent yn fodlon cymryd rhan mewn cyfweliad dilynol i archwilio eu hatebion yn fwy manwl; cynhaliwyd un cyfweliad dilynol. Defnyddiwyd arolygon i ehangu'r cyfleoedd i unigolion gymryd rhan yn y gwerthusiad, ac i ategu'r ymchwil ansoddol.

- Cyfweliadau â saith o randdeiliad sector gan gynnwys cynrychiolwyr o gyrff sector, sefydliadau amgylchedd/adnoddau naturiol, a phrifysgolion/sefydliadau ymchwil (gweler paragraff 2.6 am ragor o wybodaeth, Atodiad A am restr o sefydliadau a gyfwelwyd, ac Atodiad C ar gyfer y canllawiau pwnc).
- Cyfweliadau â thri chynrychiolydd sy'n ymwneud â dylunio/gweithredu cynlluniau perthnasol eraill gan Lywodraeth Cymru, Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF), Cymru Ystwyth a Chynllun Meithrin Gallu'r Arfordir sy'n rhan o'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (gweler Atodiad D ar gyfer canllawiau pwnc y cyfweliad).
- Adolygiad cymaryddion o gynlluniau tebyg eraill yn y DU, yn cynnwys adolygiad pen desg a chyfweliadau â swyddogion polisi yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (gweler Atodiad D ar gyfer canllawiau pwnc y cyfweliad).

*Dull samplu*

2.3 Mae Tabl 2.1 a 2.2 yn nodi manylion nifer yr ymgeiswyr (llwyddiannus ac aflwyddiannus), y rhai a gytunodd i Lywodraeth Cymru rannu eu manylion cyswllt ag SQW ar gyfer y gwerthusiad (cysylltodd SQW â phob un ohonynt), a nifer cyfweliadau a gwblhawyd gan SQW. O dan Fesurau Marchnata ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau am gyllid. O'r 36 o ymgeiswyr, cytunodd 11 i rannu eu manylion cyswllt, ac o'r rhain cwblhaodd wyth gyfweliad.

**Tabl 2.1: Nifer yr ymgeiswyr a chyfweliadau: Ymgeiswyr llwyddiannus**

| Cylch | Nifer yr ymgeiswyr | Nifer a gytunodd i gysylltu â nhw | Nifer y cyfweliadau a gwblhawyd |
|---|---|---|---|
| **MM** | 0 | Amh | Amh |
| **EE ac MoCC** | 1 | 1 | 1 |
| **H&S** | 22 | 7 | 5 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru ac SQW

Nodiadau tabl: Mae ffigurau'n cyfeirio at nifer y sefydliadau unigryw a ymgeisiodd yn hytrach na nifer y ceisiadau. Mae'r ffigurau ar gyfer pob cylch yn cynnwys un sefydliad a wnaeth gais i bob un o'r tri chylch ariannu. Mesurau Marchnata ('MM'); Effeithlonrwydd Ynni a Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd ('EE a MoCC'); Iechyd a Diogelwch ('H&S')

**Tabl 2.2: Nifer yr ymgeiswyr a chyfweliadau: Ymgeiswyr aflwyddiannus / a dynnodd yn ôl**

| Cylch | Nifer yr ymgeiswyr | Nifer a gytunodd i gysylltu â nhw | Nifer y cyfweliadau a gwblhawyd |
|---|---|---|---|
| **MM** | 3 | 0 | Amh |
| **EE ac MoCC** | 6 | 2 | 1 |
| **H&S** | 6 | 1 | 1 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru ac SQW

Nodiadau tabl: Mae ffigurau'n cyfeirio at nifer y sefydliadau unigryw a ymgeisiodd yn hytrach na nifer y ceisiadau. Mae'r ffigurau ar gyfer pob cylch yn cynnwys un sefydliad a wnaeth gais i bob un o'r tri chylch ariannu. Mesurau Marchnata ('MM'); Effeithlonrwydd Ynni a Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd ('EE a MoCC'); Iechyd a Diogelwch ('H&S')

2.4 Ar gyfer cylchoedd ariannu yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnwys amod yn hysbysiad preifatrwydd y cynllun y gellir defnyddio manylion cyswllt at ddibenion ymchwil a gwerthuso, gan gynnwys pan fydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu contractwr annibynnol. Dylai hyn helpu unrhyw werthusiadau yn y dyfodol i ymgysylltu â chyfran uwch o ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus (gweler Adran 8 am ragor o wybodaeth).

2.5 Roedd ein dull ar gyfer ddosbarthu arolygon fel a ganlyn:

- Arolwg ymgeiswyr llwyddiannus: Anfonodd Llywodraeth Cymru ddolen yr arolwg yn uniongyrchol trwy e-bost at ymgeiswyr llwyddiannus WMFS nad oeddent yn cytuno i rannu eu manylion cyswllt â SQW am gyfweliad. Cynlluniwyd yr arolwg ar

gyfer buddiolwyr y cylch Iechyd a Diogelwch yn unig.[3] Fe'i dosbarthwyd i 14 o ymgeiswyr llwyddiannus a chafwyd pum ymateb.

- Arolwg ymgeiswyr aflwyddiannus a'r sector ehangach: Dosbarthwyd yr arolwg trwy ddau brif lwybr: (i) cymdeithasau, cyrff a sefydliadau sector yng Nghymru[4], a (ii) cyfrif X Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru. O ran y cyntaf, roedd y cyfweliadau â rhanddeiliaid yn gyfle i ofyn i gyrff cynrychiolwyr ddosbarthu dolen yr arolwg. Ni dderbyniodd yr arolwg unrhyw ymatebion gan ymgeiswyr aflwyddiannus. Derbyniwyd chwe ymateb gan y sector ehangach, yn cynnwys tair menter bysgota, sefydliad ymchwil a chymdeithas/corff sector. Nid yw'n briodol amcangyfrif cyfran y boblogaeth forol a physgodfeydd a arolygwyd o ystyried y gyfradd ymateb (sylwer, darperir amcangyfrifon ar gyfer maint y sector pysgota yn benodol yn Adran 3 a allai fod yn berthnasol i'w hystyried yma).

2.6 Ar gyfer y cyfweliadau â rhanddeiliaid yn y sector, nodwyd unigolion o Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Cyllid y Môr a Physgodfeydd (grŵp cynghori penodol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru). Gwahoddwyd wyth aelod y Grŵp Cynghori hwn am gyfweliad, a chytunodd pump ohonynt. Cynhaliwyd dau gyfweliad arall ag aelodau Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Bysgodfeydd Cymru (MAGWF) a Phartneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru (CaSP Cymru).

**Dull dadansoddi**

2.7 Roedd y dull dadansoddi a chyfosod tystiolaeth yn cynnwys:

- Dadansoddiad thematig o dystiolaeth ansoddol o gyfweliadau ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus, cwestiynau agored yr arolwg (o'r ddau arolwg), a chyfweliadau â rhanddeiliaid. Ar gyfer dadansoddi cyfweliadau, cofnodwyd pob un yn ysgrifenedig gan y cyfwelydd o dîm gwerthuso SQW gan ddefnyddio templed cyson. Yna dadansoddwyd yr holl nodiadau yn thematig yn erbyn y cwestiynau ymchwil perthnasol i nodi themâu allweddol a nodi cysondeb (neu amrywiad) negeseuon allweddol. Dau ymchwilydd oedd yn gyfrifol am y

[3] Roedd hyn oherwydd bod unig fuddiolwr yr Effeithlonrwydd Ynni a Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd wedi cwblhau cyfweliad.
[4] Roedd y cyfweliadau â rhanddeiliaid yn gyfle i ofyn i gyrff cynrychiolwyr ddosbarthu dolen yr arolwg a thrafod logisteg. Cytunodd chwe rhanddeiliad i gefnogi dosbarthu'r arolwg. Roedd y dulliau o rannu'r arolwg yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau, a negeseuon e-bost uniongyrchol i rwydweithiau.

dadansoddiad - yn canolbwyntio ar gyfweliadau ag ymgeiswyr a'r rhanddeiliaid. Trafodwyd y canfyddiadau a'r negeseuon allweddol a ddaeth i'r amlwg a'u dilysu gyda thîm yr astudiaeth mewn gweithdy mewnol (gweler isod).

- Dadansoddiad meintiol o ddata eilaidd o Offeryn Ymholiad Fflyd Seafish[5] ac Ystadegau Blynyddol a Misol Pysgodfeydd Môr y DU ar y sector morol a physgodfeydd yng Nghymru.
- Dadansoddiad meintiol o gwestiynau caeedig o'r arolygon llwyddiannus a sector ehangach gan ddefnyddio Excel. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddi fesul cwestiwn yn unig; nid oedd dadansoddiad traws-dabliad yn bosibl oherwydd y meintiau sampl bach.
- Gweithdy mewnol a fynychwyd gan y tîm gwerthuso i drafod canfyddiadau allweddol o'r ymchwil, gan dynnu ar dystiolaeth gynradd ac eilaidd.

**Cyfyngiadau'r astudiaeth**

2.8 Roedd y gwerthusiad yn wynebu nifer o heriau a chyfyngiadau y dylid eu hystyried wrth ddehongli'r dystiolaeth:

- Yn gyntaf, roedd nifer yr ymgeiswyr (llwyddiannus ac aflwyddiannus) o'r tri chylch ariannu cyntaf yn fach, ac fel y nodir uchod, ni chytunodd pob un o'r rhain i rannu eu manylion cyswllt er bod Llywodraeth Cymru wedi anfon nifer o e-byst yn gofyn am hynny. Yn gyfan gwbl, llwyddodd y gwerthusiad i gasglu tystiolaeth sylfaenol (trwy gyfweliad neu arolwg) gan 11 o'r 23 (48 y cant) o ymgeiswyr llwyddiannus. Nid ydym wedi adrodd yn fanwl ar ganfyddiadau unigol fesul cylch er mwyn sicrhau bod yr adborth yn ddienw.
- Yn ail, nid oedd unrhyw ymgeiswyr llwyddiannus o'r cylch ariannu cyntaf (Mesurau Marchnata), ac ni chytunodd unrhyw ymgeiswyr aflwyddiannus o'r cylch hwn i gyfweliad na chwblhau'r arolwg. Felly, mae adborth yn ymwneud â Mesurau Marchnata gan randdeiliaid yn unig, yn hytrach nag yn uniongyrchol gan ymgeiswyr.
- Yn drydydd, defnyddiwyd dull eang o ddosbarthu'r arolwg sector ehangach, a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid yn rhannu dolen yr arolwg trwy sianeli cyfryngau

[5] Mae'r offeryn Seafish hwn yn rhoi crynodeb o ddata yn Tableau ar faint, strwythur a pherfformiad economaidd sector dal y DU.

cymdeithasol, cylchlythyr, ac yn uniongyrchol â'u rhwydweithiau. Estynnwyd cyfnod yr arolwg gan bythefnos er mwyn cynyddu'r gyfradd ymateb a gofynnwyd i randdeiliaid anfon nodyn atgoffa. Er gwaethaf y dull hwn, dim ond chwe ymateb a gafwyd i'r arolwg. Cytunodd tri unigolyn i gysylltu â nhw am gyfweliad dilynol, a chynhaliwyd cyfweliad ag un unigolyn.[6] Oherwydd maint bach y sampl, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau. Gall yr anawsterau mewn ymgysylltu â'r sector adlewyrchu'n rhannol fod rhai busnesau'n wynebu pryderon hyfywedd sylweddol oherwydd amrywiaeth o ffactorau allanol megis pwysau chwyddiant a goblygiadau ymadael â'r UE. Felly, yn ddealladwy, efallai na fyddai cymryd rhan yn y gwerthusiad wedi bod yn flaenoriaeth i rai busnesau. Gallai'r math o ymgysylltu fod wedi cael dylanwad hefyd, gydag arolygon wyneb yn wyneb o bosibl yn cael eu ffafrio gan rai carfannau (e.e. y rhai sy'n llai cyfarwydd â phlatfformau ar-lein). Ystyriwyd opsiynau i geisio sicrhau ymgysylltiad pellach gan y sector (er enghraifft trwy gyfweliadau wyneb yn wyneb). Fodd bynnag, cytunodd y tîm gwerthuso a Llywodraeth Cymru na fyddai modd cyflawni ymgysylltiad wyneb yn wyneb o fewn yr amserlenni gwerthuso, ac nid oedd sicrwydd o ran lefel yr ymgysylltu o'r dull hwn. Er enghraifft, ni fyddai ceisio ymgysylltu â physgotwyr mewn porthladdoedd yn sicrhau ymgysylltiad, gan mai dyma eu man gwaith ac efallai nad oes ganddynt yr amser i ymgysylltu. Mae perygl hefyd y byddai hyn wedi rhwystro pysgotwyr yn eu gweithgareddau busnes.

- Yn bedwerydd, nid oedd data monitro ar gael ar gyfer tri chylch ariannu cyntaf y cynllun. Roedd dangosyddion canlyniad i'w cytuno ar y cam ymgeisio ar gyfer Mesurau Marchnata ac Effeithlonrwydd Ynni a Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd, fodd bynnag, nid oedd unrhyw ymgeiswyr llwyddiannus o dan y cyntaf ac un ymgeisydd llwyddiannus o dan yr ail. Nid oedd dangosyddion canlyniad yn berthnasol o dan y cylch ariannu Iechyd a Diogelwch gan mai dim ond ar gyfer eitemau a bennwyd ymlaen llaw yr oedd grant ar gael. Felly, roedd yn heriol i'r gwerthusiad asesu'n gadarn yr effeithiau tymor byr a gyflawnwyd a disgwyliedig y cynllun. Mae'r asesiad o effeithiau tymor byr WMFS felly yn seiliedig ar

[6] Cysylltodd y tîm gwerthuso â'r tri unigolyn, ond ni chafwyd ymateb gan ddau unigolyn.

adborth a hunan-gofnodir o gyfweliadau ymgeiswyr llwyddiannus/ymatebion arolwg a safbwyntiau rhanddeiliaid.

## 3. Trosolwg o WMFS

3.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o WMFS, gan gynnwys y cyd-destun polisi a'r sail ddeddfwriaethol, ei nodau, a'r mathau o weithgaredd a gefnogir. Darperir hefyd grynodeb o'r tri chylch ariannu cyntaf sydd yng nghwmpas y gwerthusiad hwn.

**Cefndir a chyd-destun**

3.2 Mae angen deall WMFS yng nghyd-destun polisi ehangach yng Nghymru sy'n ceisio hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol i warchod ecosystemau a chreu buddion economaidd a chymdeithasol. Mae pedair dogfen yn arbennig o bwysig:

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**[7] a greodd saith nod llesiant statudol ac a ymrwymodd gyrff cyhoeddus i weithio yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Yng nghyd-destun WMFS, mae dau o'r nodau llesiant yn arbennig o nodedig: 'Cymru Gydnerth', sy'n cynnal ac yn gwella ecosystemau sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol; a 'Chymru Lewyrchus', cymdeithas arloesol a charbon isel sy'n cydnabod terfynau amgylcheddol tra'n datblygu economi sy'n cynhyrchu cyfoeth a chyfleoedd cyflogaeth.
- Mae **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**[8] yn pwysleisio 'rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol' er mwyn sicrhau bod eu buddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar gael i genedlaethau'r dyfodol. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau i Gyfoeth Naturiol Cymru gynhyrchu 'datganiadau ardal' i ddarparu tystiolaeth fwy lleol ar risgiau a chyfleoedd.
- Mae Deddf yr Amgylchedd yn cynnwys **Datganiad Ardal Morol**[9] sy'n cwmpasu dyfroedd mewndirol Cymru.
- Mae **Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (2019)**[10] yn edrych ar gyfnod o 20 mlynedd i ddarparu fframwaith i gefnogi rheolaeth gynaliadwy ar foroedd Cymru.

---

[7] Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
[8] Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2016) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
[9] Cyfoeth Naturiol Cymru (2023) Datganiadau Ardal
[10] Llywodraeth Cymru (2019) Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

Mae'n manylu ar bolisïau ac amcanion trawsbynciol a sector-benodol. Un o'r olaf yw "cefnogi a diogelu sector pysgota amrywiol a phroffidiol."

3.3 Yn erbyn y cefndir hwn, WMFS oedd cynllun domestig cyntaf Llywodraeth Cymru ar ôl ymadael â'r UE.[11] Fe'i crëwyd fel olynydd – ond nid yn uniongyrchol yn lle – y cynllun blaenorol a ariannwyd gan yr Undeb Ewropeaidd (EMFF) nad oedd ar gael mwyach i ddiwydiant pysgota Cymru (neu'r DU yn ehangach) ar ôl ymadael â'r UE. Yn hyn o beth, mae WMFS yn debyg i Gronfa Forol yr Alban, y Cynllun Pysgodfeydd a Bwyd Môr yn Lloegr, a Chronfa'r Amgylchedd Morol a Physgodfeydd yng Ngogledd Iwerddon. Yn ogystal, mae cynllun newydd gwerth £100m ledled y DU – Cronfa Bwyd Môr y DU – wedi'i gyflwyno gan Defra i gefnogi dyfodol hirdymor a chynaliadwyedd sector pysgodfeydd a bwyd môr y DU.

3.4 Darperir sail ddeddfwriaethol WMFS gan Ddeddf Pysgodfeydd 2020 a basiwyd gan Lywodraeth y DU, a chyfres o reoliadau a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru yn 2022 gan ddefnyddio pwerau a roddwyd iddynt gan y Ddeddf (Rheoliadau Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022). Mae'r Ddeddf yn rhoi fframwaith ar gyfer rheoli pysgodfeydd y DU yn gynaliadwy, gan gynnwys mecanweithiau ar gyfer cymorth ariannol, a'r gweithgareddau sy'n gymwys i gael cymorth ariannol o dan y Cynllun. O dan y Ddeddf, mae'r cyfrifoldeb am gymorth ariannol wedi'i ddatganoli i bob un o weinyddiaethau datganoledig y DU.[12]

3.5 Cafodd WMFS ei lywio hefyd gan Gyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd 2022 y cytunwyd arno gan Weinidogion Cymru a gweinyddiaethau eraill y DU i amlinellu sut y bydd pob un o'r awdurdodau polisi pysgodfeydd yn bodloni wyth amcan Deddf Pysgodfeydd 2020. Nod y Datganiad yw darparu "pysgodfeydd a rheolaeth dyframaethu gynaliadwy o'r radd flaenaf" trwy dri maes gan gynnwys "cefnogi diwydiant pysgota modern, gwydn ac amgylcheddol gyfrifol".[13]

[11] Cyn i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, roedd rheolaeth pysgodfeydd yn y DU yn cael ei lywodraethu gan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin

[12] Llywodraeth Cymru (2022) Ddeddf (Rheoliadau Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022

[13] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion gwledig (2022) Gyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd

3.6 Mae'r cyd-destun ar gyfer gweithredu tri chylch cyntaf WMFS wedi bod yn heriol. Yn benodol, mae pysgodfeydd yn dal i lywio trwy oblygiadau DU yn ymadael â'r UE a phenderfyniadau masnach a rheoleiddio cysylltiedig. Cafodd hyn effaith arbennig ar y sector dyframaethu oherwydd bod allforion dwygragennog byw megis cregyn gleision ac wystrys o ddyfroedd nad ydynt yn Ddosbarth A nad oeddent wedi'u puro wedi'u gwahardd rhag dod i mewn i'r UE[14] – mae llawer o gynhyrchwyr yng Nghymru yn gweithredu mewn dyfroedd Dosbarth B. Mae angen i bysgodfeydd hefyd lywio effeithiau amodau ehangach gan gynnwys prisiau ynni a phwysau chwyddiant. Gyda'i gilydd, mae'r dylanwadau allanol hyn wedi effeithio'n sylweddol ar hyfywedd hirdymor, a gallu buddsoddi, llawer o fusnesau ar draws sectorau pysgodfeydd a morol Cymru.[15]

**Tueddiadau sector**

3.7 Mae data o Offeryn Ymholiad Fflyd Seafish yn rhoi mewnwelediad ar sut mae sector Pysgodfeydd Cymru wedi newid dros amser, a sut mae'r tueddiadau hyn yn cymharu â gweddill y DU.[16] Daw'r data diweddaraf sydd ar gael o 2023, ac mae'n seiliedig ar ddata a ddarparwyd i Seafish gan y Sefydliad Rheoli Morol (MMO) ond mae'n cwmpasu data a gasglwyd ledled y DU gan y gweinyddiaethau pysgodfeydd datganoledig. Gweinyddiaethau pysgodfeydd yw'r sefydliadau sy'n gyfrifol am reoli pysgodfeydd ym mhob un o'r gwledydd cartref. Yr MMO yw'r weinyddiaeth pysgodfeydd ddatganoledig sy'n gyfrifol am reoli gweithgareddau morol yn Lloegr, a Llywodraeth Cymru yw'r weinyddiaeth sy'n gyfrifol am bysgodfeydd yng Nghymru.[17] Ategwyd hyn gan ddata o adroddiad ystadegau blynyddol pysgodfeydd môr y DU 2022 yr MMO (a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023), sy'n darparu data ynghylch nodweddion fflydoedd yng Nghymru a'r DU.


3.8 Mae diwydiant pysgodfeydd Cymru yn gymharol fach yng nghyd-destun diwydiant y DU. Yn 2023, amcangyfrifwyd bod 3,824 o gychod pysgota gweithredol yn y DU - 223 ohonynt yng Nghymru, sef 5.8 y cant o gyfanswm y DU. Mae'r DU a Chymru

[14] Er enghraifft, gweler: Tŷ'r Cyffredin (2023) Library Debate Pack: Shellfish aquaculture
[15] Er enghraifft, gweler: Welsh fishing industry is facing 'sea of challenges | Fishing News
[16] Seafish (2024) Offeryn Ymholiad Fflyd
[17] Sefydliad Rheoli Morol (2023) Adroddiad ystadegau blynyddol pysgodfeydd môr y DU 2022

wedi gweld gostyngiad cyson yn nifer y cychod ers 2017; bryd hynny roedd 321 yng Nghymru a 4,637 yn y DU.

3.9 Er bod Cymru a'r DU wedi profi lefel debyg o ostyngiad yn nifer y cychod gweithredol, maent wedi dargyfeirio o ran Tunelledd Gros (GT)[18]. Mae Ffigur 3.1 yn dangos sut mae'r DU wedi gallu cadw lefel debyg o GT er gwaethaf gostyngiad mewn cychod, tra bod Cymru wedi gweld gostyngiad sylweddol yn ei GT ers 2017. Yn ogystal, mae GT yng Nghymru wedi gostwng gan gyfradd uwch na nifer y cychod, sy'n golygu bod y GT cyfartalog fesul cwch wedi gostwng yng Nghymru tra bod y GT cyfartalog fesul cwch wedi codi ledled y DU. Felly, nid yn unig y mae gan Gymru bellach gyfanswm llai o gychod, mae'r cychod hyn hefyd yn llai (yn nhermau GT) ar gyfartaledd o gymharu â 2017. Mewn cymhariaeth, mae'r DU gyfan wedi gweld ei chapasiti cychod cyfartalog yn cynyddu tra bod y nifer o gychod wedi lleihau.

**Ffigur 3.1. Mynegai nifer y cychod a thunelledd gros ar gyfer Cymru a'r DU rhwng 2017 – 2022 (gwerth yn 2017=100)[19]**




Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddata adroddiad ystadegau blynyddol pysgodfeydd môr y DU 2022.

---

[18] Mae tunelledd gros (GT) yn fesur cyfeintiol o gapasiti cychod

[19] Mae data ar gyfer Cychod a Thunelledd gros wedi'u mynegeio i 100 yn 2017. Defnyddiwyd mynegeio i alluogi cymhariaeth haws o newid mewn gwerthoedd dros amser o gymharu â'r man cychwyn hwn, a'i gilydd

3.10 Roedd tua 650 o bysgotwyr yng Nghymru yn 2022, sef tua 6 y cant o holl bysgotwyr y DU. Gostyngodd nifer y pysgotwyr rheolaidd yng Nghymru rhwng 2021 a 2022, tra bod ffigur y DU wedi codi ychydig (gweler Tabl 3.1 a 3.2). Nid oedd archwilio'r rhesymau dros y gostyngiad hwn mewn pysgotwyr rheolaidd o fewn cwmpas y gwerthusiad. Fodd bynnag, trafodir y ffactorau sy'n debygol o fod wedi cyfrannu at y duedd hon ym mharagraff 3.12. Mae pysgotwyr rhan-amser yn cynrychioli cyfran fwy o ddiwydiant Cymru: yn 2022, roedd 39 y cant o bysgotwyr Cymru yn rhan-amser, o gymharu â 14 y cant o bysgotwyr y DU yn gyffredinol.

**Tabl 3.1: Nifer y pysgodfeydd yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig (2021-2022): Rheolaidd**

| Gwlad | 2021 (% o'r cyflogeion) | 2022 (%o'r cyflogeion) | Newid mewn canran |
|---|---|---|---|
| **Cymru** | 532 (68%) | 399 (61%) | -25.0% |
| **Y Deyrnas Unedig** | 8,806 (82%) | 8,909 (86%) | +1.2% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddata adroddiad ystadegau blynyddol pysgodfeydd môr y DU 2022.

**Tabl 3.2: Nifer y pysgodfeydd yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig (2021-2022): Rhan amser**

| Gwlad | 2021 (% o'r cyflogeion) | 2022 (%o'r cyflogeion) | Newid mewn canran |
|---|---|---|---|
| **Cymru** | 253 (32%) | 255 (39%) | +0.8% |
| **Y Deyrnas Unedig** | 1,918 (18%) | 1,447 (14%) | -24.6% |


Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddata adroddiad ystadegau blynyddol pysgodfeydd môr y DU 2022.

3.11 Er gwaethaf heriau yn y blynyddoedd diwethaf, cynyddodd incwm pysgota fesul cyfwerth ag amser llawn (FTE)[20] yng Nghymru a'r DU (er ei fod yn gymharol gyfnewidiol o un flwyddyn i'r llall) rhwng 2008 a 2019, wedi'i ysgogi'n bennaf gan gynnydd yn y prisiau cyfartalog y gellir gwerthu pysgod.[21] Yn benodol, cyfrannodd cynnydd sydyn ym mhris Pysgod Cregyn rhwng 2016-2017[22] at incymau uwch, yn enwedig yng Nghymru lle'r oedd cyfran gymharol uchel o'i gwerthiannau yn cynnwys Pysgod Cregyn (yn 2017, roedd 87% o werthiannau Cymru mewn Pysgod

[20] Mae person llawn amser yn cael ei gyfrif fel un FTE, tra bod gweithiwr rhan-amser yn cael sgôr sy'n gymesur â'r oriau y mae'n eu gweithio
[21] Am ragor o wybodaeth gweler: MMO (2023) Adroddiad ystadegau blynyddol pysgodfeydd môr y DU 2022 – Glaniadau
[22] Seafish (2018) Economeg Fflyd Pysgota y DU 2017

Cregyn o gymharu â 38% yn y DU).[23] Mae Ffigur 3.2 yn dangos gostyngiad sydyn mewn incwm fesul FTE yng Nghymru a'r DU rhwng 2019 a 2020, sy'n ganlyniad i heriau economaidd-gymdeithasol a gyflwynwyd gan bandemig Covid-19. Fodd bynnag, ers 2020, mae incwm fesul FTE yng Nghymru wedi parhau i ostwng rhwng 2020-2023, tra ei fod wedi adfer yn y DU gyfan.

**Ffigur 3.2. Incwm pysgota fesul FTE yng Nghymru a'r DU (2008-2023)**




Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddata Offer Ymholiad Seafish

3.12 Ar y cyfan, mae'r data'n awgrymu bod y diwydiant pysgodfeydd yng Nghymru yn fach o'i gymharu â maint diwydiant y DU, ac mae wedi mynd yn llai mewn termau absoliwt yn y blynyddoedd diwethaf. Er y dylid dehongli incwm pysgota yn ofalus oherwydd ei anwadalrwydd o un flwyddyn i'r llall, mae'r data'n awgrymu bod incwm fesul FTE yng Nghymru wedi gweld gostyngiad parhaus ers 2017, tra bod incwm pysgota'r DU wedi adfer yn dilyn pandemig Covid-19. Mae nifer o heriau i'r diwydiant, gan gynnwys pandemig Covid-19, y DU yn ymadael â'r UE a heriau rheoleiddio, yn debygol o fod wedi cyfrannu at y dirywiad hwn.[24]

---

[23] Sefydliad Rheoli Morol (2018) Ystadegau Pysgodfeydd y Môr y DU 2017

[24] Er enghraifft, gweler: Welsh fishing industry is facing 'sea of challenges | Fishing News

**Trosolwg o'r cynllun**

3.13 Darparwyd dyraniad cyllid tair blynedd cychwynnol o £6.2m rhwng 2022/23 a 2024/25 gan Lywodraeth y DU i gefnogi'r sector morol, pysgodfeydd a dyframaethu yng Nghymru. Mae'r gronfa gyllid hon yn cefnogi ystod o fecanweithiau cymorth, gan gynnwys WMFS. Dyrannwyd cyllideb o £1.5m ar gyfer 2023/24 i dri chylch cyntaf WMFS.

3.14 Nod WMFS yw "gefnogi twf amgylcheddol ac economaidd gynaliadwy yn niwydiant bwyd môr Cymru ac annog cymunedau arfordirol Cymru i ffynnu."[25]

3.15 Yn benodol, pedwar nod allweddol WMFS yw:

- rhoi cyfle a hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth ariannol dros ystod eang o feysydd pwnc o fewn sectorau morol, pysgodfeydd a dyframaethu Cymru
- buddsoddi'n strategol er budd hirdymor y sectorau
- addasu i heriau a chyfleoedd tymor byr
- cefnogi ein cynhyrchwyr bwyd môr, ein cymunedau arfordirol a'r amgylchedd morol i ffynnu gyda'i gilydd

3.16 Er mwyn cyflawni hyn, gall WMFS gefnogi ystod gymharol eang o 18 o weithgareddau gwahanol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r rheini sy'n hyrwyddo arloesedd, sefydlu seilwaith, marchnata, a chadwraeth ecosystemau dyfrol a bioamrywiaeth (ceir rhestr lawn o weithgareddau isod). Mae'r WMFS yn gweithredu trwy gyfres o gylchoedd ariannu. Gall pob cylch fynd i'r afael ag un neu fwy o flaenoriaethau polisi ac ymdrin ag un neu fwy o'r 18 o weithgareddau cymwys. Gweithredir y cylchoedd ariannu trwy RPW.

3.17 Sefydlwyd Grŵp Cynghori penodol – Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Cyllid y Môr a Physgodfeydd – ar gyfer y cynllun er mwyn rhoi mecanwaith ar gyfer ymgysylltu â'r sector i lywio'r gwaith o gynllunio a gweithredu'r cynllun.

---

[25] Llywodraeth Cymru (2022) ynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru: canllawiau perthnasol i bob rownd

*Gweithgareddau y gellir eu hariannu o dan y cynllun*

- Gweithgareddau sy’n hyrwyddo arloesi
- Gweithgareddau sy’n ymwneud â gwasanaethau cynghori proffesiynol
- Gweithgareddau sy’n hyrwyddo cyfalaf dynol, rhwydweithio
- Gweithgareddau sy’n gwella hylendid, iechyd, diogelwch a llesiant
- Gweithgareddau sy’n cefnogi busnesau i arallgyfeirio
- Gweithgareddau sy’n lliniaru effeithiau amgylchiadau esgusodol andwyol
- Gweithgareddau sy’n sefydlu neu’n gwella seilwaith ar gyfer defnyddwyr y môr a dŵr croyw
- Gweithgareddau sy’n hyrwyddo creu swyddi ac yn annog newydd-ddyfodiaid i’r diwydiannau morol, pysgota a dyframaethu
- Gweithgareddau sy’n cefnogi pysgotwyr neu ffermwyr dyframaethu i sefydlu busnesau pysgota neu ddyframaethu newydd
- Gweithgareddau sy’n cyfrannu at ddatblygu safleoedd dyframaethu yn gynaliadwy
- Gweithgareddau sy’n cefnogi marchnata cynhyrchion morol, pysgodfeydd a dyframaethu neu bysgota hamdden
- Gweithgareddau sy’n arwain at gynhyrchion, prosesau neu systemau rheoli a threfniadaeth newydd neu well
- Gweithgareddau sy’n lleihau effaith cynhyrchu bwyd môr ar yr amgylchedd morol
- Gweithgareddau sy’n cyfrannu tuag at gadwraeth, adfer neu wella ecosystemau dyfrol a bioamrywiaeth
- Gweithgareddau sy’n cyfrannu at ddylunio a gweithredu mesurau cadwraeth
- Gweithgareddau sy’n cefnogi cynllunio gofodol morol ar gyfer defnyddio adnoddau morol ac arfordirol yn gynaliadwy
- Gweithgareddau sy’n cyfrannu at liniaru’r newid yn yr hinsawdd neu ei effeithiau
- Gweithgareddau sy’n cynnal neu’n gwella iechyd a lles anifeiliaid

3.18 Mae’r gwerthusiad hwn yn cwmpasu tri chylch ariannu cyntaf WMFS: Mesurau Marchnata; Effeithlonrwydd Ynni a Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd; ac Iechyd a Diogelwch.

3.19 Nodir bod pedwerydd cylch 'Cyffredinol' o'r WMFS ar waith ar hyn o bryd (blwyddyn ariannol 2024/25); nid yw'r cylch hwn o fewn cwmpas y gwerthusiad.[26] Mae'r pedwerydd cylch yn cynnig cyllid cyfalaf a refeniw, yn eang ei ffocws, ac yn agored i fentrau morol a physgodfeydd. Lansiwyd y cylch ym mis Chwefror 2024, caeodd y ffenestr ymgeisio ym mis Mai 2024, a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw diwedd mis Mawrth 2025.

**Y tri chylch ariannu cyntaf**

3.20 Mae'r tabl trosodd yn rhoi trosolwg o bob un o'r tri chylch ariannu o fewn y cwmpas, gan gynnwys nodau, nodweddion grant, y broses ymgeisio, ac amserlenni. Fel y dangoswyd, roedd y cylchoedd yn amrywio yn eu prosesau (h.y. proses ymgeisio un cam a dau gam), y math o gyllid (h.y. refeniw a chyfalaf), maint (h.y. grantiau'n amrywio o £200 i £100,000), a meysydd ffocws.

3.21 O ran cymhwysedd:

- Cynlluniwyd cylchoedd 1 a 2 ar gyfer mentrau morol, bwyd môr a dyframaethu, gyda Chylch 2 hefyd yn agored i'r byd academaidd, cyrff gwyddonol / technegol a'r trydydd sector
- Roedd Cylch 3 wedi'i thargedu'n benodol at fentrau pysgota neu ddyframaethu masnachol.

3.22 Cyflawnwyd y tri chylch ariannu yn olynol. Agorwyd Mesurau Marchnata ar gyfer ceisiadau ym mis Rhagfyr 2022. Agorodd y ffenestr ymgeisio ar gyfer Effeithlonrwydd Ynni a Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd ym mis Ionawr 2023, gydag Iechyd a Diogelwch yn Dilyn ym mis Medi 2023. Hyrwyddwyd pob un o'r tri chylch gan ddefnyddio'r mecanweithiau canlynol:

- Rhyddhawyd Hysbysiad i'r Wasg a'i letya ar wefan Llywodraeth Cymru ac ar gyfrif X Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru (a raeadrwyd gan gyrff sector).
- Anfonwyd e-bost at holl aelodau Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Polisi Ariannu'r Môr a Physgodfeydd, MAGWF, a CaSP gyda manylion y cylchoedd ariannu, a gofynnwyd iddynt rannu'r wybodaeth â'u haelodau ac yn ehangach yn y sector morol a physgodfeydd.

[26] LlywodraethCymru (2024) Cylch ariannu cyffredinol (Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru): canllawiau

- Lle’r oedd hynny’n bosibl, anfonwyd e-bost at ddeiliaid trwyddedau pysgodfeydd a thrwyddedau rhynglanwol, ac os nad oedd manylion e-bost ar gael, anfonwyd llythyrau trwy’r post.

3.23 Roedd y broses ymgeisio ar gyfer y ddau gylch ariannu refeniw cyntaf yn broses dau gam – Datganiad o Ddiddordeb (DoDd) a chais llawn – tra bod Iechyd a Diogelwch yn defnyddio proses un cam. Defnyddiodd y cylch Iechyd a Diogelwch ddull cost safonol lle’r oedd rhestr o eitemau cymwys a’u costau cysylltiedig wedi’u pennu ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru. Ar gyfer pob un o’r tri chylch, roedd yn ofynnol i hawliadau gael eu cyflwyno a’u cymeradwyo erbyn diwedd mis Mawrth 2024.

**Tabl 3.3: Trosolwg o dri chylch cyntaf cylchoedd ariannu WMFS**

| Manylion cylch ariannu | Cylch 1: Mesurau Marchnata[27] | Cylch 2: Effeithlonrwydd Ynni a Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd [28] | Cylch 3: Iechyd a Diogelwch[29] |
|---|---|---|---|
| **Nod cyffredinol** | Cefnogi mentrau marchnata ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu gyda nifer o amcanion strategol:<br>• Dod o hyd i farchnadoedd newydd ar gyfer gwahanol fathau o gynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu (e.e. rhywogaethau sydd â photensial marchnata, dalfeydd nad sydd eu heisiau ac ati)<br>• Hyrwyddo agweddau ansawdd a gwerth ychwanegol y cynhyrchion hyn trwy hwyluso cydymffurfiaeth â gofynion ardystio, hyrwyddo arferion cynaliadwy, a chefnogi ymdrechion marchnata uniongyrchol.<br>• Gwella tryloywder ac olrheinedd mewn cynhyrchu a marchnadoedd trwy ymchwil marchnad, arolygon ac astudiaethau | • Ymchwil i ddeall, sefydlu llinellau sylfaen, a lleihau allyriadau carbon, gan gynnwys gwella effeithlonrwydd ynni ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd<br>• Gweithgareddau megis archwiliadau effeithlonrwydd ynni a charbon, dadansoddi data, ac astudiaethau dichonoldeb ar gyfer cynhyrchion/prosesau arloesol | • Gwella hylendid, iechyd, diogelwch, lles ac amodau gwaith i bysgotwyr a gweithwyr dyframaethu trwy ddarparu grantiau ar gyfer buddsoddiadau mewn offer iechyd a diogelwch |

[27] Llywodraeth Cymru (2022) Mesurau Marchnata (Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru): canllawiau
[28] Llywodraeth Cymru (2023) Effeithlonrwydd Ynni a lliniaru Newid Hinsawdd (Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru): canllawiau
[29] Llywodraeth Cymru (2023) echyd a Diogelwch (Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru): canllawiau

| Manylion cylch ariannu | • **Cylch 1: Mesurau Marchnata** | • **Cylch 2: Effeithlonrwydd Ynni a Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd** | **Cylch 3: Iechyd a Diogelwch** |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion / canlyniadau** | • Nifer y swyddi a grëwyd<br>• Nifer y swyddi a sicrhawyd<br>• Nifer y Marchnadoedd Newydd a nodwyd / a sicrhawyd<br>• Cynnydd mewn refeniw a/neu werthiant<br>• Nifer yr arolygon/astudiaethau/ymchwil marchnad a gynhaliwyd o gymharu â blynyddoedd blaenorol | • Lefel arbedion effeithlonrwydd ynni a ragwelir yn y sector targed wedi'i fesur fel, er enghraifft, Cilowat/Awr (kWh) y flwyddyn neu Litrau o danwydd/Tunnell fetrig o ddalfeydd.<br>• Gostyngiad % a ragwelir mewn allyriadau carbon (a nwyon tŷ gwydr eraill) mewn tunelli CO2 y flwyddyn ar gyfer y sector targed.<br>• Nifer yr archwiliadau effeithlonrwydd ynni/carbon/astudiaethau dichonoldeb a gwblhawyd | Amh |
| **Math o grant** | Refeniw yn unig | Refeniw yn unig | Cyfalaf yn unig |
| **Maint grant** | £500 - £50,000 fesul prosiect<br>Uchafswm cyfradd ymyrryd uchaf yn dibynnu ar fath a maint yr ymgeisydd (30 y cant i 100 y cant). | £500 - £100,000 fesul prosiect<br>Uchafswm cyfradd ymyrryd yn dibynnu ar fath a maint yr ymgeisydd (30 y cant i 100 y cant). | £200 - £10,000 fesul ymgeisydd<br>Uchafswm cyfradd ymyrryd rhwng 50 y cant (endid nad sy'n un micro) ac 80 y cant (endid BBaCh micro) o'r gost safonol gymeradwy |
| **Proses ymgeisio** | Proses ymgeisio dau gam: Datganiad o Ddiddordeb a chais llawn. | Proses ymgeisio dau gam: Datganiad o Ddiddordeb a chais llawn | Proses ymgeisio un cam. Cynllun cost safonol |

| **Manylion cylch ariannu** | • **Cylch 1: Mesurau Marchnata** | • **Cylch 2: Effeithlonrwydd Ynni a Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd** | • **Cylch 3: Iechyd a Diogelwch** |
|---|---|---|---|
| **Dyddiadau allweddol** | • Ffenestr Datganiad o Ddiddordeb yn agor 05/12/22 a chau ar 13/01/23<br>• Hysbysiad canlyniad Datganiad o Ddiddordeb: o fewn chwe wythnos<br>• Ffenestr cyflwyno ceisiadau llawn: 13/02/23 i 09/05/23<br>• Cwblhau gwerthusiad cais llawn: anelu am o fewn 90 diwrnod<br>• Rhaid cwblhau'r gweithgaredd, a thalu a hawlio gwariant erbyn 31/03/24 | • Ffenestr Datganiad o Ddiddordeb yn agor 10/01/23 a chau ar 06/02/23.<br>• Hysbysiad canlyniad Datganiad o Ddiddordeb: o fewn chwe wythnos.<br>• Ffenestr cyflwyno ceisiadau llawn: 09/03/23 i 01/06/23.<br>• Cwblhau gwerthusiad cais llawn: anelu am o fewn 90 diwrnod<br>• Rhaid cwblhau'r gweithgaredd, a thalu a hawlio gwariant erbyn 31/03/24 | • Ffenestr ymgeisio yn agor 06/09/23 a chau ar 11/10/23<br>• Dyddiad cau ar gyfer hawlio: 120 diwrnod calendr o ddyddiad cyhoeddi'r contract |

Ffynhonnell: SQW yn seiliedig ar ddogfennau canllaw WMFS

3.24 Cyflwynir dadansoddiad o nifer y ceisiadau llwyddiannus, aflwyddiannus, a'r rhai a dynnwyd yn ôl yn y tabl isod. Ar draws y tri chylch, roedd 23 o 41 o geisiadau (56 y cant) yn llwyddiannus. Derbyniodd y tri chylch ariannu geisiadau gan, a dyfarnwyd grantiau i, amrywiaeth o wahanol fathau o sefydliadau. Mentrau bwyd môr oedd yr ymgeiswyr yn fwyaf cyffredin, gan gyfrif am bedwar o'r chwe chais Mesurau Marchnata a phob un ond un o'r ceisiadau Iechyd a Diogelwch llwyddiannus. Daeth y saith cais llawn ar gyfer Effeithlonrwydd Ynni a Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd gan dair prifysgol, tri sefydliad ymchwil arall, ac un sefydliad yn y sector dyframaethu.

3.25 Ni chafwyd unrhyw geisiadau llwyddiannus o dan Gylch 1 (Mesurau Marchnata). Roedd adborth gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu y gellir esbonio hyn, yn rhannol o leiaf, gan broffil ymgeiswyr. Bwriad Cylch 1 oedd cefnogi mentrau marchnata ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu. Fodd bynnag, yn groes i ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru, ni wnaeth unrhyw bysgotwyr gais. Felly, nid oedd y mathau o brosiectau a nodwyd yn y ceisiadau a dderbyniwyd yn cyd-fynd â nodau ac amcanion strategol y cylchoedd ariannu, ac ni chawsant eu hariannu.

3.26 Roedd un cais llwyddiannus o dan Gylch 2 (Effeithlonrwydd Ynni a Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd) a hawliodd £26.3k. Fel rhan o'r hawliad, darparwyd prawf o gwblhau archwiliad ynni. Ni ellid mesur arbedion effeithlonrwydd ynni ar adeg y cais terfynol gan y byddai'r arbedion hyn yn dod o weithredu'r argymhellion o'r archwiliad ynni, na chafodd ei ariannu fel rhan o'r prosiect. Unwaith eto, amlygwyd gan gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru nad oedd y proffil ymgeiswyr fel y bwriadwyd: y disgwyl oedd y byddai pysgotwyr yn gwneud cais am archwiliadau effeithlonrwydd ynni a charbon ar gyfer eu cychod i'w defnyddio fel sail dystiolaeth ar gyfer uwchraddio. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir yn ymarferol. Roedd pum cais yn aflwyddiannus ar y sail nad oeddent yn cyd-fynd ag amcanion y cylch, nid oedd gweithgareddau'n gymwys, ac nid oeddent yn gallu bodloni'r dangosyddion canlyniad/canlyniadau. Hefyd, tynnwyd un cais yn ôl oherwydd diffyg amser i gwblhau'r prosiectau o fewn y cyfnod ariannu.

3.27 O dan Gylch 3 (Iechyd a Diogelwch), derbyniwyd 28 o geisiadau a chymeradwywyd 22 cais. Fodd bynnag, roedd nifer y grantiau a hawliwyd yn is:

cyflwynwyd 15 cais am grant, a chymeradwywyd a phroseswyd 13 ohonynt i'w talu, sef cyfanswm o tua £46.7k. Roedd y ddau hawliad arall (sy'n cyfrif am £17.6k o dynnu ar y grant y gofynnwyd amdano) yn aflwyddiannus ac ni chawsant eu talu. Nodir na chafodd saith cais grant a gymeradwywyd eu hawlio wedyn. Lle'r oedd yn hysbys, y prif reswm pam nad oedd ymgeiswyr yn hawlio oedd nad oedd modd cael gafael ar yr offer a oedd yn cyfateb i'r manylebau gofynnol.

**Tabl 3.4: Nifer yr ymgeiswyr a hawliadau a gymeradwywyd yn ôl cylch**

| Cylch | Nifer yr DoDd | Nifer y ceisiadau | Nifer y ceisiadau llwyddiannus | Nifer y ceisiadau aflwyddiannus | Nifer y ceisiadau a dynnwyd yn ôl | Nifer yr hawliadau a gymeradwywyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cylch 1: MM** | 6 | 6 | 0 | 6 | 0 | 0 |
| **Cylch 2: EE a MoCC** | 10 | 7 | 1 | 5 | 1 | 1 |
| **Cylch 3: H&S** | Amh | 28 | 22 | 4 | 2 | 13 |
| **Cyfanswm** | 16 | 41 | 23 | 15 | 3 | 14 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

*Ystyriaethau*

3.28 Amlygodd y cyfweliadau cwmpasu fod nifer y ceisiadau ar gyfer y tri chylch cyntaf yn is nag a ragwelwyd gan Lywodraeth Cymru. Awgrymodd adborth y gallai pedwar ffactor allweddol fod wedi cyfrannu at lefel y galw:

- Roedd cylchoedd 1 a 2 yn darparu cyllid refeniw yn seiliedig ar y cytundeb gyda Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, awgrymodd yr holl gyfweleion cwmpasu (yn seiliedig ar eu profiad a'u gwybodaeth o weithio ym maes datblygu polisi a gweithredu rhaglenni morol a physgodfeydd) mai cyllid cyfalaf sy'n cael ei ffafrio

gan bysgotwyr. Gwelwyd bod y math o gyllid wedi arwain at ddiffyg ceisiadau gan bysgotwyr ar gyfer Cylchoedd 1 a 2.

- Mae gan y cynllun gyllideb flynyddol sy'n golygu bod rhaid cyflawni prosiectau a hawlio grantiau o fewn un flwyddyn ariannol. Felly, yn wahanol i'r EMFF cynharach, nid oedd yn bosibl rhoi'r cyfle i sefydliadau a gynorthwyir gyflawni prosiectau mwy hirdymor, ar raddfa fwy, gyda'r potensial am fwy o ganlyniadau. Gwelwyd bod hyn o bosibl wedi lleihau'r galw gan fentrau morol, bwyd môr neu ddyframaethu.
- Yn gysylltiedig â'r uchod, mae cwblhau'r cais, cyflawni'r prosiect, a'r broses hawlio o fewn cyfnod o 12 mis yn heriol. Yn gyffredinol, cymerodd y broses ymgeisio dau gam ar gyfer Cylchoedd 1 a 2 tua wyth mis, gan adael chwe/saith mis i brosiectau gael eu cyflawni a grantiau i gael eu hawlio. Roedd hyn er gwaethaf y cyfnod ymgeisio ar gyfer y ddau gylch yn agor cyn blwyddyn ariannol y grant (h.y. 2023/24) ym mis Rhagfyr 2022 a mis Ionawr 2023 ar gyfer Cylchoedd 1 a 2 yn y drefn honno gyda'r bwriad o wneud y mwyaf o'r cyfnod gweithredu. Mae'n bosibl bod y cyfnod cyflawni tynn hwn wedi arwain at ansicrwydd ynghylch y gallu i gyflawni gweithgaredd, gan arwain at lai o alw.
- Mae'r heriau sy'n wynebu'r sector ar hyn o bryd yn golygu nad yw rhai busnesau yn gallu darparu'r arian cyfatebol gofynnol ar gyfer y grantiau.

3.29 Trafodir adborth gan ymgeiswyr a rhanddeiliaid sector ehangach ar y materion hyn yn yr adrannau sy'n dilyn.

## 4. Myfyrio gan ymgeiswyr y cynllun

4.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno'r dystiolaeth gan ymgeiswyr llwyddiannus a gasglwyd trwy'r chwe chyfweliad a'r pum ymateb i'r arolwg. Mae'n myfyrio ar effeithiolrwydd taith y cwsmer, effeithiau tymor byr y cynllun, agweddau ar y cynllun y gellid eu gwella wrth symud ymlaen, ac anghenion ariannu yn y dyfodol. Mae'r dystiolaeth wedi'i dadansoddi ar y cyd i sicrhau bod yr holl gyfweleion ac ymatebwyr yr arolwg yn aros yn ddienw.

4.2 Cyflwynir tystiolaeth gan ymgeiswyr aflwyddiannus hefyd. O ystyried y nifer fach o ymgeiswyr aflwyddiannus a gyfwelwyd (dau), mae eu hadborth wedi'i grynhoi a'i gyflwyno ar wahân ar ddiwedd yr adran.

### Cefndir a chyd-destun

*Rhesymeg ar gyfer cais WMFS*

4.3 Gwnaeth pob ymgeisydd llwyddiannus a gyfwelwyd gais i'r WMFS i ariannu prynu offer newydd neu i hwyluso uwchraddio offer presennol. Cyfeiriodd ymatebwyr yr arolwg at gymhellion tebyg dros wneud cais i'r WMFS.

4.4 Yn absenoldeb cyllid WMFS, ni fyddai dau gyfwelai wedi prynu'r offer oherwydd costau, tra esboniodd eraill sut yr oedd y cynllun yn cynnig cymorth ariannol i brynu offer y gallent fod wedi'i brynu fel arall yn y dyfodol. Felly rôl y cynllun oedd cyflymu'r pryniant hwn.

4.5 Gofynnwyd i ymgeiswyr am eu profiadau blaenorol o wneud cais am arian cyhoeddus. Roedd gan chwech o'r 11 ymgeisydd a gyfwelwyd/arolygwyd brofiad blaenorol o wneud cais am gyllid cyfalaf neu refeniw o gynlluniau eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru/DU neu'r UE. Roedd hyn yn cynnwys EMFF, Cronfa Cymunedau'r Arfordir Llywodraeth Cymru ac Innovate UK. Ni nododd yr un o'r ymatebwyr i'r arolwg na'r rhai a gyfwelwyd ffynonellau cyllid eraill y gellid bod wedi'u defnyddio i ddarparu'r un gweithgaredd sy'n gymwys ar gyfer cyllid o dan WMFS. Fodd bynnag, mewn un achos, defnyddiwyd cyllid WMFS i barhau i ariannu gweithgareddau a oedd wedi derbyn cyllid o ffynonellau eraill yn flaenorol.

**Effeithiolrwydd Taith y Cwsmer**

*Hyrwyddo a marchnata*

4.6 Roedd y sianelau cyfathrebu a ddefnyddiwyd i wneud ymgeiswyr yn ymwybodol o'r cyllid yn amrywio ar draws yr ymgeiswyr llwyddiannus a gyfwelwyd/arolygwyd. Dywedodd ymgeiswyr llwyddiannus eu bod wedi dod yn ymwybodol gyntaf o gylch ariannu perthnasol WMFS trwy e-bost (a phost ar gyfer y rheini heb gyfeiriad e-bost ar eu cyfer), cyrff sector/cymdeithasau (e.e. Cymdeithas Pysgotwyr Cymru, Cymdeithas Cynhyrchwyr Dyframaethu Cymru), cyfryngau cymdeithasol ac ar lafar.

4.7 Cafwyd adborth cymysg ar farchnata a hyrwyddo'r cynllun. Nododd dau ymatebydd i'r arolwg fod y marchnata a'r hyrwyddo yn dda/rhagorol (sgorio pedwar neu bump, lle mae un yn wael a phump yn rhagorol), tra bod y pedwar ymatebydd arall yn ei raddio'n niwtral (h.y. tri allan o bump). Ategwyd hyn gan dri chyfwelai, a bwysleisiodd bwysigrwydd sicrhau bod y cynllun yn cael ei hyrwyddo trwy ddeunyddiau digidol a ffisegol, er mwyn cynyddu cyrhaeddiad y rhaglen i'r eithaf. Awgrymodd dau gyfwelai ffyrdd penodol o wella marchnata a hyrwyddo:

- awgrymwyd gwella apêl weledol deunyddiau marchnata (e.e. defnyddio posteri, yn hytrach nag e-byst testun plaen) gan un cyfwelai
- awgrymodd cyfwelai arall hysbysiadau awtomataidd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pysgotwyr cofrestredig yn rhoi gwybod iddynt am gyfleoedd ariannu sydd ar ddod.

*Cais, asesiad a chontract*

4.8 Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr i'r arolwg o'r farn bod cynllun y cylch ariannu yn glir, gyda'r rhan fwyaf o ymgeiswyr (pedwar) yn graddio agweddau amrywiol – meini prawf cymhwyster, maint y grant, a chyfradd yr ymyrraeth (h.y. cyfran cyfanswm costau'r prosiect sy'n gymwys ar gyfer cymorth grant) – yn glir neu glir iawn (h.y. pedwar neu bump allan o bump, lle mae un yn aneglur iawn a phump yn glir iawn) o ran eglurder fel yr eglurir yn nogfennau a chanllawiau'r cynllun. Sgoriodd yr ymgeisydd arall eglurder yr agweddau hyn fel aneglur neu niwtral (h.y. dau neu dri allan o bump). Ni awgrymodd unrhyw ymgeiswyr llwyddiannus y cyfwelwyd â hwy welliannau i unrhyw un o'r agweddau hyn ar ddylunio.

4.9 Fodd bynnag, roedd pob un ond un o'r ymgeiswyr llwyddiannus y cyfwelwyd â hwy yn anfodlon ar y cyfan â'r broses ymgeisio ei hun. Roedd yr un cyfwelai a oedd yn fodlon yn teimlo bod y broses ymgeisio yn symlach na cheisiadau grant blaenorol. Roedd heriau penodol a amlygwyd gan ymgeiswyr a oedd yn anfodlon yn cynnwys:

- amwysedd ynghylch y mathau o weithgareddau y gellid eu hariannu trwy'r cynllun
- ei chael hi'n anodd llywio a defnyddio'r system RPW ar-lein (er enghraifft, roedd rhai cwestiynau, megis cyfrifo defnydd tanwydd a dalfeydd dyddiol yn y dyfodol, yn anodd i'r ymgeiswyr eu hateb)
- anallu canfyddedig i gysylltu ag RPW neu Lywodraeth Cymru a chael cymorth, gan arwain at broses ymgeisio y teimlwyd oedd yn 'amhersonol'
- (ar gyfer Cylch 3 yn benodol) gofynion llym o ran y fanyleb offer, yn enwedig o gymharu â'r hyblygrwydd canfyddedig a ddarperir o dan gynllun Costau Safonol EMFF rhagflaenol. Mewn rhai achosion teimlwyd nad oedd y gofynion hyn yn cyd-fynd ag anghenion ymgeiswyr. O ganlyniad, teimlwyd y gallai cyfyngiadau o bosibl beryglu diogelwch, lle mae meini prawf cymhwysedd llym yn golygu nad yw offer a brynir trwy'r cynllun yn addas ar gyfer y cwch y bydd yn cael ei osod ynddi (e.e. maint / manyleb anghywir ac ati). Nodwyd y gallai gofynion llym atal pobl rhag gwneud cais am gynlluniau yn y dyfodol.

4.10 Mae rhai enghreifftiau o'r adborth a ddarparwyd wedi'u nodi isod:

> "Mae [porth RPW] yn ei wneud yn wirioneddol anhygyrch i bobl nad ydynt yn dod o gefndir ymgeisio am grantiau." (Cyfweliad ymgeisydd)

> "Mae'r manylebau anhyblyg ar gyfer yr offer mewn gwirionedd yn niweidiol i ddiogelwch." (Cyfweliad ymgeisydd)

4.11 Soniodd dau gyfwelai am gael cymorth gan hyrwyddwyr neu gynghorwyr trydydd parti i helpu gyda'u cais. Cawsant gefnogaeth ar gyfer eglurhad am y cynllun, gofynion archwilio, a'r math o offer sy'n gymwys o dan y cynllun. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn gyffredin i bob ymgeisydd.

4.12 Hefyd, roedd dau gyfwelai yn ymwybodol o ymgeiswyr posibl eraill yr adroddwyd eu bod wedi penderfynu peidio â gwneud cais yn bennaf oherwydd y broses ymgeisio ar-lein. Awgrymwyd y byddai proses ymgeisio symlach (er enghraifft, porth sy'n

haws ei lywio a lanlwytho dogfennaeth iddo), gyda chymorth priodol, yn gwella hygyrchedd y cyllid. Nodwyd hefyd gan dri chyfwelai bod prosesau ymgeisio ar gyfer cynlluniau eraill (e.e. Cronfa Bwyd Môr y DU, y cynllun Costau Safonol EMFF rhagflaenol) yn teimlo'n symlach o gymharu â WMFS.

4.13 Roedd profiadau o'r broses asesu yn gadarnhaol ar y cyfan. Credai tri o bedwar o ymatebwyr yr arolwg fod y broses asesu yn dryloyw, a barnwyd bod adborth a ddarparwyd trwy'r broses yn ddefnyddiol.[30] Roedd un ymatebydd i'r arolwg yn anfodlon â thryloywder y broses (gan roi gradd o ddau o allan o bump i'r elfen hon). Roedd pump o'r cyfweleion yn fodlon â'r broses asesu. Roedd yr un cyfwelai a oedd yn anfodlon yn teimlo bod y broses asesu yn rhy hir. Eglurwyd bod y broses asesu estynedig (yn eu barn hwy) yn niweidiol i'w prosiect, lle'r oedd oedi cyn cymeradwyo yn lleihau'r amserlen ar gyfer cyflawni a chyflwyno hawliadau, felly nid oedd y prosiect yn gallu cyflawni'n llawn yn erbyn y buddion disgwyliedig.

4.14 Derbyniodd y broses ymgeisio dau gam ar gyfer Cylch 2, a oedd yn cynnwys Datganiad o Ddiddordeb a chais llawn, adborth cadarnhaol gan y ddau gyfwelai a gwblhaodd y broses hon. Teimlwyd bod y gofynion Datganiad o Ddiddordeb yn gymesur er mwyn asesu a fyddai'r prosiect arfaethedig yn bodloni nodau ac amcanion WMFS.

4.15 Roedd ymatebwyr i'r arolwg ar y cyfan yn fodlon â'r broses asesu a chontractio gyda thri (allan o bedwar[31]) yn graddio tryloywder y broses a'r adborth a ddarparwyd yn bump (lle mae un yn anfodlon iawn a phump yn fodlon iawn), a thri (allan o bedwar) gan raddio'r amser a gymerir rhwng gwneud cais a derbyn y cynnig contract yn bedwar neu bump (h.y. bodlon/bodlon iawn).

*Cyflawni gweithgaredd*

4.16 O ystyried nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus, bychan oedd maint y gweithgaredd a gyflawnwyd o dan y tri chylch ariannu cyntaf. Fodd bynnag, lle'r oedd gweithgaredd yn cael ei ariannu trwy WMFS, yn gyffredinol fe'i darparwyd yn ôl y bwriad. Dywedodd holl ymatebwyr yr arolwg (yn berthnasol i Gylch 3 yn unig) fod gweithgaredd yn cael ei ddarparu yn ôl y disgwyl, a bod yr offer a brynwyd yn

[30] Ni roddodd un ymatebwr i'r arolwg ymateb i'r cwestiwn hwn.
[31] Ni atebodd un ymatebydd y cwestiwn

diwallu eu hanghenion o ran gwella iechyd a diogelwch eu sefydliad. Galluogodd y cylch Iechyd a Diogelwch i amrywiaeth o eitemau gael eu prynu, gyda'r eitemau a adroddwyd amlaf gan ymatebwyr i'r arolwg yn cynnwys goleuadau chwilio, siacedi achub, radios llaw, ysgolion, biniau rhwyd, a systemau awtobeilot. Dywedwyd bod yr offer hwn bellach yn cael ei ddefnyddio (neu ar gael i'w ddefnyddio pan fydd wedi'i glustnodi ar gyfer defnydd brys yn unig).

4.17 Ar y cyfan, roedd cyfweleion hefyd yn gallu cyflawni gweithgaredd fel y cynlluniwyd. Fodd bynnag, i rai roedd camaliniad rhwng y gweithgaredd a ariannwyd a'u disgwyliadau cychwynnol. Yn benodol, nodwyd y gallai graddfa'r gweithgaredd fod wedi bod yn fwy gyda phroses asesu fyrrach, neu fod y cyllid wedi bod yn fwy hyblyg o ran mathau/manyleb yr offer a oedd yn gymwys i'w ariannu.

*Monitro a hawlio*

4.18 Er bod ymatebwyr i'r arolwg wedi teimlo bod y broses monitro a hawlio yn syml, cafodd y mwyafrif o'r rhai a gyfwelwyd rai anawsterau. Roedd problemau a gafwyd gan ymgeiswyr unigol yn cynnwys anallu i hawlio cyllid oherwydd gwahaniaethau rhwng offer a brynwyd o gymharu â'r hyn a oedd yn gymwys, cyfnod ad-daliad hwy na'r disgwyl ar ôl cyflwyno'r hawliad (gan nodi sut y gall hyn arwain at heriau llif arian i fasnachwyr unigol a sefydliadau bach) ac amserlenni cywasgedig ar gyfer archwilio pryniannau (gan achosi heriau ar gyfer offer oedd ag amseroedd aros hirach amdanynt). Roedd un cyfwelai wedi methu gallu hawlio ei grant oherwydd barnwyd bod yr offer a brynwyd yn anghymwys oherwydd gwahaniaethau yn y fanyleb. Canfu buddiolwyr eraill fod diffyg eglurder ynghylch gofynion yr hawliad o'r cychwyn cyntaf, felly gofynnwyd iddynt am dystiolaeth ychwanegol ar ôl cyflwyno hawliad cychwynnol.

4.19 Dywedodd dau gyfwelai hefyd bod yr oedi rhwng gwneud hawliad a derbyn ad-daliad yn broblem, a oedd yn cael ei weld yn her i fasnachwyr unigol a busnesau bach o ystyried cyfyngiadau llif arian. Mae'r pryder hwn yn fwy pan nad oes llawer o hyblygrwydd mewn offer cymwys ar gyfer y cynllun, gan gynyddu'r risg o beidio â chael ad-daliad. Gwelwyd bod hyn hefyd wedi dylanwadu ar lefel y galw am WMFS, fel y nododd un cyfwelydd:

> "Mae'n rhaid i ymgeiswyr ariannu popeth eu hunain i ddechrau nes eu bod yn ei gael yn ôl ac nid yw rhai pobl yn gallu gwneud hynny ... Nid oes gan lawer o

fusnesau pysgota yr arian sbâr, nid oherwydd na fyddai'n ddefnyddiol, ond nid yw'r arian ganddynt, felly rwy'n meddwl mai dyma'r prif reswm dros nifer isel o ymgeiswyr". (Cyfweliad ymgeisydd)

4.20 Cafwyd adborth cymysg gan ymatebwyr i'r arolwg mewn perthynas â'r broses hawlio grant. Roedd dau (allan o bump) yn fodlon iawn ag amseroldeb y broses (ei graddio'n bump, lle'r oedd un yn anfodlon iawn a phump yn fodlon iawn). Roedd y tri ymatebydd arall yn anfodlon (dau ymatebydd) neu'n niwtral (un ymatebydd) ynghylch amseroldeb y broses. Hefyd, roedd tri (allan o bump) o ymatebwyr yr arolwg yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r dystiolaeth oedd ei hangen (e.e. anfonebau, derbynebau) a rhwyddineb/eglurder cyffredinol y broses.[32]

4.21 Fel amod o'r dyfarniad grant, mae Llywodraeth Cymru yn datgan y gellir adolygu offer a brynir gan ddefnyddio'r arian ac unrhyw waith papur cysylltiedig yn y pum mlynedd nesaf i sicrhau cydymffurfiaeth. Teimlwyd bod y gofynion monitro hyn yn briodol, ac ni soniodd unrhyw gyfwelai sut y gellid eu gwella.

**Effeithiau tymor byr**

4.22 Mae tystiolaeth o effeithiau tymor byr y tri chylch ariannu cyntaf yn gyfyngedig ar hyn o bryd. Mae rhai arwyddion o effeithiau tymor byr gan ymatebwyr yr arolwg a chyfweleion yn cynnwys:

- arferion gwaith mwy diogel o ganlyniad i offer newydd neu well
- gosod offer mwy effeithlon a/neu effeithiol, gan arwain at gynnydd posibl mewn cynhyrchiant a chostau rhedeg is
- mwy o gapasiti ar gyfer dal a storio, gan helpu i gynhyrchu refeniw yn anuniongyrchol.

4.23 Dywedodd rhai cyfweleion y gallai'r effeithiau hyn fod wedi bod yn fwy amlwg (wedi'u darparu'n gyflymach, ar raddfa fwy, o ansawdd uwch) pe bai'r cyllid wedi bod yn fwy hyblyg (e.e. o ran offer cymwys) i'w hanghenion busnes ac wedi'i ddarparu mewn modd mwy amserol.

4.24 Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos y gallai'r heriau a brofwyd gan ymgeiswyr WMFS fod wedi cael effaith negyddol ar ddiddordeb mewn cyfleoedd ariannu yn y dyfodol.

[32] Nododd y ddau ymatebydd arall y gofynion o ran tystiolaeth yn ddau (h.y. yn anfodlon) a rhwyddineb / eglurder cyffredinol y broses fel un (h.y. anfodlon iawn) a thri (h.y. niwtral)

Dywedodd dau o ymatebwyr yr arolwg na fyddai ganddynt ddiddordeb mewn gwneud cais am gylchoedd posibl o WMFS yn y dyfodol. Yn yr un modd, mynegodd rhai cyfweleion (tri) eu hamharodrwydd i wneud cais am unrhyw gylchoedd ariannu yn y dyfodol os bydd y broses yn aros yr un fath oherwydd, yn eu barn hwy, roedd y broses ymgeisio yn anghymesur â'r dyfarniad ariannol posibl.

**Ystyriaethau cyffredinol**

4.25 Yn gyffredinol, tynnodd ymgeiswyr llwyddiannus sylw at werth y cyllid i gefnogi gweithgareddau sydd o fudd i'w sefydliad. Fodd bynnag, fe wnaethant hefyd nodi nifer o ffyrdd y gellid gwella'r WMFS yn y dyfodol er mwyn sicrhau'r buddion gorau posibl i'r diwydiant:

- **Mwy o aliniad ag anghenion diwydiant.** Er bod ymgeiswyr llwyddiannus yn teimlo bod y gweithgaredd a ariannwyd gan WMFS o werth, teimlwyd y gallai fod wedi bod o fwy o werth pe bai cwmpas y gweithgareddau cymwys wedi'i ehangu, o ran y mathau o weithgareddau (e.e. hyfforddiant, addasu cychod ac ati) yn ogystal â mwy o hyblygrwydd o ran yr hyn a ganiateir gan y cyllid (e.e. manyleb y cyfarpar). Yn fwy cyffredinol, teimlwyd bod angen mynd i'r afael â heriau sy'n dod i'r amlwg yn y sector, megis addasiadau i gydymffurfio â newidiadau polisi a rheoleiddio sy'n datblygu (e.e. gofynion Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, terfynau o ran dalfeydd, gofynion sero net ac ati).
- **Gwella ymgysylltiad a chefnogaeth y sector.** Yn gysylltiedig â'r uchod, er mwyn sicrhau bod cylchoedd ariannu'r dyfodol yn fwy cydnaws ag anghenion y sector, awgrymwyd bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n llawnach â'r diwydiant wrth ddylunio'r cynllun. Awgrymodd dau gyfwelai y gallai Llywodraeth Cymru gynyddu ei phresenoldeb mewn porthladdoedd pysgota trwy ariannu 'rheolwyr cydberthynas' ar safleoedd. Byddai'r rheolwyr hyn yn gweithredu fel cyfryngwyr, gan feithrin deialog gyson rhwng y diwydiant a llunwyr polisi yn ystod y cyfnod dylunio a marchnata.
- **Cefnogaeth yn ystod y cyfnod ymgeisio:** Roedd adborth yn nodi y byddai mwy o gefnogaeth gan dîm polisi Llywodraeth Cymru neu RPW (neu gyfatebol) yn ystod y broses ymgeisio o fudd fel y gall darpar ymgeiswyr ddylunio prosiect sy'n gymwys ac sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau cyffredinol y sector.

- **Gwell mynediad at gyllid.** Mae'n bwysig dylunio a gweithredu cynllun sy'n gwbl hygyrch i bob rhan o'r sector er mwyn cynyddu'r galw. Amlygwyd bod mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chymhlethdod cyflwyno'r cais, y broses asesu, a chyflwyno hawliadau yn arbennig o bwysig. Nodwyd y gallai rhai ymgeiswyr WMFS ddewis peidio â gwneud cais am gyfleoedd ariannu yn y dyfodol os na roddir sylw i'r rhain.

**Anghenion ariannu yn y dyfodol**

4.26 Nododd ymgeiswyr llwyddiannus nifer o heriau a chyfleoedd y gellid mynd i'r afael â hwy neu fanteisio arnynt gyda chymorth cyllid ar gyfer y sector yn y dyfodol. Ymhlith yr heriau a nodwyd yn yr arolwg mae llywio amodau marchnad anodd (e.e. prisiau marchnad isel, heriau sy'n gysylltiedig â gorbysgota), gyda chyfleoedd sy'n ceisio mynd i'r afael â'r rhain o ran mynediad i farchnadoedd newydd (megis galluogi pysgotwyr i werthu'n syth i'r cyhoedd).

4.27 Mewn ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd hyn, awgrymodd ymatebwyr i'r arolwg y gallai cylchoedd ariannu yn y dyfodol geisio cefnogi pysgotwyr neu ffermwyr dyframaethu i sefydlu busnesau pysgota neu ddyframaethu newydd, yn ogystal â chymorth i gydymffurfio â rheoliadau newydd (e.e. cyfyngiadau pysgota). Fodd bynnag, mae anghenion yn amrywiol ac felly dylid cynnal hyblygrwydd. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn cytuno â'r farn hon, gan amlygu'r angen am gylchoedd ariannu yn y dyfodol i ddarparu cyllid ar gyfer agweddau eraill yr effeithir arnynt gan reoleiddio (e.e. hyfforddiant, addasu cychod ac ati). Awgrymodd cyfweleion hefyd ddyluniadau amgen ar gyfer cyllid a chymorth busnes yn y dyfodol, megis mynediad at gronfa adnodd arbenigol i gynorthwyo gyda chyflawni prosiectau (e.e. cymorth peirianneg), yn ogystal â chyfleoedd i gyflwyno cynigion cydweithredol er mwyn cyflawni prosiectau mwy trawsnewidiol.

4.28 Nododd ymgeiswyr llwyddiannus nifer o feysydd penodol a allai fod angen cymorth ariannol yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant, gwella strwythur ffisegol cychod, yn ogystal â chyfleoedd sy'n annog cydweithredu rhwng sefydliadau (yn enwedig ym maes dyframaethu). Roedd tri o'r pum ymatebydd i'r arolwg o'r farn y dylai unrhyw gylchoedd ariannu yn y dyfodol flaenoriaethu gwariant cyfalaf (roedd y ddau ymatebydd arall yn ansicr).

**Crynodeb o adborth gan ymgeiswyr aflwyddiannus**

4.29 Gwnaeth y ddau ymgeisydd aflwyddiannus y cyfwelwyd â nhw gais i WMFS i'w helpu i ymateb i heriau yn y farchnad, yn enwedig mewn perthynas â chostau ynni cynyddol, newid yn yr hinsawdd a newidiadau mewn deddfwriaeth. Dywedodd y ddau eu bod wedi llwyddo i wneud cais am raglenni grant blaenorol, gan gynnwys EMFF.

*Effeithiolrwydd Taith y Cwsmer*

4.30 Cyfeiriodd yr ymgeiswyr aflwyddiannus y cyfwelwyd â hwy at nifer o heriau gyda'r broses ymgeisio, asesu a chontractio, rhai ohonynt yn cyd-fynd â'r rhai a grybwyllwyd gan ymgeiswyr llwyddiannus. Gan gydnabod eu bod wedi bod yn aflwyddiannus yn eu cais, a allai fod wedi dylanwadu ar eu safbwyntiau, yn eu barn hwy:

- Roedd diffyg tryloywder yn y broses asesu ac adborth clir ynghylch pam yr oeddent yn aflwyddiannus. Nododd un cyfwelai na chafodd unrhyw adborth ar ei gais.
- Nid oedd digon o gefnogaeth trwy gydol y broses ymgeisio. E-bost oedd yr unig ffordd o gyfathrebu ag RPW, a ystyriwyd yn amhersonol ac yn amhriodol i'r sector. Teimlwyd bod cyfathrebu yn cael ei lesteirio gan y ffaith bod y cynllun wedi'i ddylunio gan adran y Môr a Physgodfeydd yn Llywodraeth Cymru, ond yn cael ei ddarparu gan RPW yn Llywodraeth Cymru, gan olygu bod ymgeiswyr yn teimlo na allent gyfathrebu'n uniongyrchol â Llywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud â'r cynllun.
- Roedd diffyg dealltwriaeth canfyddedig o gymhlethdodau/naws y diwydiant pysgota yn amlwg yn y gweithgareddau sy'n gymwys ar gyfer cymorth a'r broses ymgeisio gymharol gymhleth (o'i gymharu â maint y cyllid a gynigir).

4.31 Tynnodd y ddau ymgeisydd aflwyddiannus sylw at yr angen i gylchoedd ariannu yn y dyfodol gynnwys mwy o ymgysylltu â'r diwydiant, o ran dylunio a gweithredu. Roedd hyn yn cynnwys awgrym yn ymwneud â chyfleoedd eraill i ymgysylltu (megis dros y ffôn ac wyneb yn wyneb) yn ogystal â sicrhau bod y broses o ddylunio a gweithredu rhaglenni yn ystyried anghenion y sector (megis ystyried cyfyngiadau llif arian ymhlith pysgotwyr unigol a mentrau bach).

4.32 Er bod cyfweleion yn cydnabod yr angen am drylwyredd wrth asesu ceisiadau, yn eu barn nhw roedd lleihau lefel y manylder/gwybodaeth sydd ei hangen ar y cam ymgeisio yn bwysig, yn enwedig lle'r oedd gwerth y dyfarniad yn gymedrol o ran ei faint. Gwnaethant awgrymu y gallai dull cymesur / hyblyg fod yn addas, lle mae rhaglenni grant sy'n cynnig mwy o ddyfarniadau hefyd angen mwy o fanylder, er mwyn sicrhau craffu digonol.

4.33 Soniodd un o'r ddau ymgeisydd aflwyddiannus sut y gall cyllid blynyddol annog rhai gweithgareddau a pheidio ag annog eraill, gan effeithio yn y pen draw ar natur y cymorth a dderbynnir gan y sector. Yn eu barn hwy, gallai cyllid amlflwyddyn helpu i fynd i'r afael â'r heriau hyn, a sicrhau bod cyfran fwy o'r sector yn gallu cael mynediad at raglenni cymorth busnes.

# 5. Myfyrio gan y sector morol a physgodfeydd

5.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno'r adborth o'r cyfweliadau â rhanddeiliaid (saith) ac ymatebion i'r arolwg sector ehangach (chwech ac un cyfweliad dilynol). Roedd cyfweleion ac ymatebwyr i'r arolwg yn cynnwys cynrychiolwyr o gyrff sector, sefydliadau amgylchedd/adnoddau naturiol, prifysgolion/sefydliadau ymchwil, a mentrau pysgota. Mae'r adran yn ystyried cyd-destun y sector, y galw am y cynllun a'r modd y mae'n cael ei weithredu, effeithiau tymor byr, a sut y gellid gwella'r ffordd y caiff cylchoedd ariannu WMFS eu dylunio a'u gweithredu yn y dyfodol.

**Cyd-destun y sector**

5.2 Gofynnwyd i randdeiliaid fyfyrio ar yr heriau a'r cyfleoedd allweddol i'r sector morol a physgodfeydd yng Nghymru pan lansiwyd WMFS ym mis Rhagfyr 2022. Soniodd y rhan fwyaf o randdeiliaid am oblygiadau parhaus ymadawiad y DU â'r UE. Yn benodol, amlygwyd effaith penderfyniadau masnach a rheoleiddio ar allu busnesau dyframaethu Cymru i fasnachu â'r UE. Yn 2022, roedd y sector hefyd yn gwella o'r heriau galw a chyflenwad (e.e. oedi wrth allforio, cau busnesau lletygarwch) yn gysylltiedig â phandemig Covid-19. Nodwyd pwysau chwyddiant a chostau ynni cynyddol hefyd fel heriau gan y rhan fwyaf o randdeiliaid, gyda masnachwyr unigol yn cael eu heffeithio'n arbennig. Cyfeiriodd nifer fach o randdeiliaid at liniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd fel her a chyfle i'r sector. Yn benodol, nodwyd bod manteisio ar botensial ynni adnewyddadwy Cymru yn faes cyfle i'r sector ond roedd angen cryn dipyn o gymorth ariannol cyhoeddus.

5.3 Ers lansio'r cynllun, dywedodd cyfweleion fod yr heriau a'r cyfleoedd i'r sector wedi aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth (yng ngwanwyn 2024). Mae goblygiadau ymadael â'r UE, pwysau chwyddiant a chostau ynni cynyddol wedi parhau i effeithio ar y sector.

5.4 Gofynnwyd hefyd i ymatebwyr yr arolwg fyfyrio ar y ddwy brif her a chyfle ar gyfer eu busnes/sefydliad ar hyn o bryd. Roedd yr heriau a nodwyd yn adlewyrchu rhai o'r materion a godwyd gan randdeiliaid, gan gynnwys costau ynni. Fodd bynnag, codwyd amrywiaeth o heriau eraill gan gynnwys cystadleuaeth gan fusnesau/busnesau mwy yng ngwledydd eraill y DU, prisiau pysgod lleol isel, ac ansicrwydd ynghylch trwyddedu morol. Cafwyd llai o adborth yn ymwneud â

chyfleoedd, a allai adlewyrchu'n rhannol yr amodau gweithredu a masnachu heriol presennol ar gyfer y sector morol a physgodfeydd. Wedi dweud hyn, lle rhoddodd ymatebwyr adborth roedd hyn yn canolbwyntio ar gyfleoedd o'r newid i sector mwy cynaliadwy, er enghraifft, marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg i gefnogi prosiectau adfer morol a darparu gwasanaethau ecosystem. Soniwyd hefyd am y cyfle i ddysgu gan adborth ar dri chylch ariannu cyntaf WMFS, er mwyn sicrhau bod cylchoedd y dyfodol yn bodloni anghenion y sector yn llawn.

5.5 Gyda'i gilydd, amlygodd yr adborth o'r cyfweliadau a'r arolwg y dirwedd weithredu heriol iawn ar gyfer y cynllun a phwysigrwydd ffactorau allanol o ran dylanwadu ar ei weithrediad a'i rôl bosibl.

**Y galw a gweithrediad y cynllun**

5.6 Roedd y mwyafrif ymatebwyr yr arolwg (pump allan o chwech) yn ymwybodol o'r WMFS cyn yr arolwg.[33] Roedd y pump yn ymwybodol o'r cylch ariannu Iechyd a Diogelwch pan oedd y ffenestr ymgeisio ar agor, ac roedd pedwar yn ymwybodol o'r cylchoedd Mesurau Marchnata ac Effeithlonrwydd Ynni a Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd.

5.7 Dywedodd tri o'r pum ymatebydd a oedd yn ymwybodol o'r cynllun cyn yr arolwg mai un o'r rhesymau pam na wnaed cais am y tri chylch ariannu cyntaf oedd diffyg gallu i gwblhau'r broses ymgeisio. Eglurwyd hyn ymhellach gan ddau ymatebydd a ddywedodd nad oedd y broses ymgeisio yn gymesur â'r buddion posibl.

> "Roedd cymhlethdod y broses ymgeisio yn golygu bod y gost a budd ar gyfer prosiectau bach yn annichonadwy i BBaChau micro" (Ymatebydd arolwg sector ehangach)

5.8 Y rhesymau eraill a nodwyd amlaf (gan dri ymatebydd) dros beidio â gwneud cais oedd nad oedd y gweithgaredd y gellid ei ariannu a'r math o gyllid (h.y. refeniw / cyfalaf) oedd ar gael yn cyd-fynd ag anghenion eu busnes/sefydliad.

5.9 Gofynnwyd hefyd i'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd fyfyrio ar y ffactorau a ddylanwadodd ar y galw am y tri chylch ariannu cyntaf, a'r ffactorau a allai fod wedi annog ymgysylltiad gan fusnesau/sefydliadau nad oeddent yn berthnasol. Yr adborth

[33] Roedd gweddill yr ymatebwyr yn ansicr a oeddent yn ymwybodol o'r WMFS cyn yr arolwg

cyson gan randdeiliaid oedd bod y diffyg galw am y tri chylch ariannu cyntaf yn adlewyrchu problemau gyda dyluniad a gweithrediad y cynllun yn benodol, yn hytrach na diffyg galw gan y sector am gymorth yn ehangach. Yn wir, pwysleisiodd rhanddeiliaid fod galw mawr gan y sector morol a physgodfeydd am gymorth y sector cyhoeddus a chymorth seiliedig ar grantiau, fel y dangosir gan y dyfyniadau isod.

> "Nid bod yna ddiffyg galw am gymorth o fewn y sector. Diffyg galw ydyw am y math yma o gefnogaeth a ddarperir yn y modd hwn". (Rhanddeiliad sector)

> "Mae'r problemau'n gorwedd gyda'r mecanweithiau dyrannu cyllid a'r amserlenni, yn hytrach na diffyg galw neu'r cysyniad craidd y tu ôl i'r cynllun". (Rhanddeiliad sector)

> "Mae gan sefydliadau ddiddordeb ac maent yn barod i dderbyn ffrydiau ariannu newydd, ac os yw'r gronfa'n iawn iddynt hwy byddant yn gwneud pob ymdrech i wneud bid. Os nad yw hynny wedi digwydd ar gyfer WMFS, yna mae yna rywbeth sydd ddim yn iawn, oherwydd mae angen yr arian ar bobl". (Rhanddeiliad sector)

5.10 Wedi dweud hyn, cydnabuwyd y gallai cyflwr presennol y sector fod wedi dylanwadu ar y galw. Adroddwyd bod llawer o fusnesau yn y sector wedi bod mewn "modd goroesi" dros y tair i bum mlynedd diwethaf, oherwydd ystod o ffactorau allanol (er enghraifft, gweler uchod). Felly, nid oes ganddynt yr adnoddau na'r ysgogiad i fuddsoddi pan fo dyfodol eu busnes yn ansicr.

5.11 Crynhoir yr elfennau dylunio a gweithredu a grybwyllwyd amlaf na weithiodd cystal, ac a oedd yn annog pobl i beidio ag ymgysylltu â'r cynllun, yn y paragraffau sy'n dilyn. Nodir na soniodd rhanddeiliaid yn benodol am unrhyw ffactorau a weithiodd yn dda wrth ddylunio a gweithredu'r tri chylch ariannu cyntaf.

5.12 Dywedodd yr holl randdeiliaid fod yr amserlen ariannu ar gyfer y cynllun yn her fawr. Rhaid gwneud cais am grantiau, eu cymeradwyo, eu gwario a'u hawlio o fewn blwyddyn ariannol, sy'n atal prosiectau / gweithgareddau hirdymor, ac o bosibl mwy strategol – gyda'r potensial i sicrhau buddion mwy sylweddol i'r sector – rhag cael eu cyflawni. Codwyd y mater hwn hefyd yn yr adborth arolwg ehangach a chyfweliadau ag ymgeiswyr llwyddiannus. Nododd y rhanddeiliaid a gyfwelwyd

hefyd, mewn rhai achosion, bod oedi wrth asesu ceisiadau a oedd yn lleihau'r cyfnod cyflawni ymhellach, gan arwain at rai ymgeiswyr yn tynnu'n ôl.

5.13 Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid (pump) at faterion yn ymwneud â'r broses ymgeisio. Yn gyffredinol, ni ystyriwyd bod y broses ymgeisio yn gymesur â maint y grantiau oedd ar gael. Mae'r sector yn cynnwys llawer o unig fasnachwyr a microfusnesau sydd â gallu cyfyngedig i wneud cais am gyllid, felly yn ôl rhanddeiliaid bydd prosesau y teimlir sy'n fiwrocrataidd yn atal unigolion rhag ymgeisio. Roedd tri ymatebydd i'r arolwg hefyd yn gweld y broses ymgeisio fel un "rhy gymhleth a chyfyngol". Tynnwyd sylw at borth RPW fel her benodol, gyda rhanddeiliaid yn ei ddisgrifio fel "heriol i'w lywio" (yn seiliedig yn bennaf ar adborth gan aelodau'r sector) ar gyfer sector sy'n anghyfarwydd i raddau helaeth â'r system.[34] Nodwyd hefyd bod diffyg cymorth ar gael yn ystod y broses ymgeisio a diffyg cyfathrebu canfyddedig rhwng tîm polisi Llywodraeth Cymru a thîm cyflawni RPW, fel y dangosir yn y dyfyniad isod.

> "Os byddwch yn dod ar draws problem mae'n rhaid i chi gysylltu â thîm technegol, sydd ar wahân i'r tîm Môr a Physgodfeydd, a all arwain at ddryswch a llawer o fynd yn ôl ac ymlaen" (Rhanddeiliad sector)

5.14 Codwyd materion yn ymwneud â'r mathau o weithgareddau a ariennir a'r meini prawf cymhwyster hefyd gan randdeiliaid. Dywedodd tua hanner y rhanddeiliaid (tri) nad oedd dogfennaeth y cynllun yn nodi'n glir pa weithgareddau y gellid eu hariannu, a oedd yn ymarferol yn arwain at geisiadau'n cael eu gwrthod oherwydd eu bod yn anghymwys. O ran ffocws pob un o'r cylchoedd ariannu, roedd barn gymysg ymhlith y rhanddeiliaid a oedd yn gyfarwydd â manylion pob un o'r cylchoedd ariannu; mae'r adborth wedi'i grynhoi isod.

- Mesurau Marchnata: roedd un rhanddeiliad o'r farn bod y cylch ariannu hwn yn briodol pan ystyrir goblygiadau ymadael â'r UE a'r angen i rai busnesau (yn enwedig busnesau dyframaethu) ddod o hyd i farchnadoedd newydd ar gyfer eu cynnyrch. Fodd bynnag, teimlai rhanddeiliad arall nad oedd y cylch ariannu yn ymateb i flaenoriaethau'r sector, ac adlewyrchwyd hyn yn y lefel isel o ddiddordeb yn y cylch.

[34] Sylwch fod system ar-lein Taliad Gwledig Cymru wedi'i chynllunio'n wreiddiol ar gyfer y sector amaethyddiaeth.

- Effeithlonrwydd Ynni a Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd: roedd rhanddeiliaid yn cytuno bod angen buddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni a lliniaru newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, eglurwyd y gellid dadlau bod y ffocws ar astudiaethau dichonoldeb, ymchwil ac ati yn rhy gyfyng, ac na fyddai'n sicrhau buddion uniongyrchol i fusnesau yn y tymor byr. Yn lle hynny, awgrymodd rhanddeiliaid y byddai'r sector wedi elwa gan gymorth mwy uniongyrchol, er enghraifft, i uwchraddio cychod er mwyn gwella effeithlonrwydd tanwydd; teimlwyd bod hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod cychod o Gymru yn gallu moderneiddio er mwyn cadw at reoliadau Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau. Nodir nad oedd darparu gwariant cyfalaf yn bosibl ar yr adeg y datblygwyd Cylch 2 (yn unol â'r cytundeb ariannu gyda Llywodraeth y DU).
- Iechyd a Diogelwch: awgrymwyd y gallai'r cylch hwn fod wedi bod yn fwy effeithiol pe bai ymgeiswyr wedi gallu ei ddefnyddio fel rhan o brosiect ehangach, er enghraifft, ailwampio llong, nad oedd yn bosibl o ystyried y rhestr o eitemau cymwys.

5.15 Yn fwy cyffredinol, nododd dau randdeiliad fod diffyg eglurder wedi bod yn eu barn hwy ynghylch blaenoriaethau'r cynllun yn gyffredinol. Yn rhannol, priodolwyd hyn i elfennau 'morol' a 'physgodfeydd' yn cael eu cynnwys o dan un cynllun, gyda blaenoriaethau gwahanol ar draws dwy gydran y sector.

5.16 Roedd y math o gyllid oedd ar gael hefyd yn llesteirio'r galw am y ddau gylch ariannu cyntaf. Roedd cyllid refeniw ar gael o dan Fesurau Marchnata ac Effeithlonrwydd Ynni a Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd. Fel yr awgrymwyd uchod, pwysleisiodd rhanddeiliaid fod galw cryfach yn y sector am arian cyfalaf (e.e. i fuddsoddi mewn gwella cychod). Wedi dweud hyn, cydnabuwyd yn gadarnhaol ac yn galonogol gan ddau randdeiliad, yn dilyn adborth ar y ddau gylch ariannu cyntaf, fod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid cyfalaf o dan y cylch Iechyd a Diogelwch (a'r cylch ariannu Cyffredinol dilynol).

*Cydweddiad y cynllun â'r dirwedd ehangach o gymorth i'r sector*

5.17 Ni nododd y rhanddeiliaid y cyfwelwyd â hwy unrhyw ffynonellau penodol eraill o gymorth gan y sector cyhoeddus ar gyfer y sector yng Nghymru, gan amlygu pwysigrwydd WMFS. Fodd bynnag, nodir bod cynllun DU gyfan - Cronfa Bwyd Môr y DU - ar gael i fusnesau/sefydliadau yng Nghymru. Roedd adborth mewn

perthynas â chydweddiad y cynllun â'r dirwedd ehangach o gymorth yn canolbwyntio ar gymharu'r WMFS â chynlluniau eraill yng Nghymru neu'r DU. Yn benodol, mynegodd tri rhanddeiliad rwystredigaeth nad yw'r cynllun yn cyfateb i gynllun Lloegr (Cynllun Pysgodfeydd a Bwyd Môr, FaSS). Soniwyd am y maint grant absoliwt uwch sydd ar gael a'r mathau o weithgareddau a ariennir (er enghraifft, cyfalaf ar gyfer addasu ac ail-beiriannu cychod) o dan FaSS. Roedd un rhanddeiliad yn meddwl ei bod yn debygol y byddai cynllun tebyg yng Nghymru yn cael derbyniad da gan y sector. Crybwyllwyd dau gynllun arall hefyd gan dri rhanddeiliad: cynllun Meithrin Gallu Arfordirol (archwilir hyn ymhellach yn Adran 6) ac sy'n cael ei ddarparu'n effeithiol ac yn hyblyg yn ôl dau randdeiliad, a Rhwydweithiau a weinyddir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Mae'r tri rhanddeiliad o'r farn bod gweithrediad y ddau gynllun yn effeithiol o gymharu â'r WMFS.

**Effeithiau tymor byr**

5.18 Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod effeithiau tymor byr WMFS wedi'u cyfyngu hyd yma o gofio lefelau isel ymgysylltu â'r tri chylch ariannu cyntaf. Fodd bynnag, nododd tua hanner y rhanddeiliaid (tri) ei bod yn anodd gwneud sylwadau ar effaith y cynllun oherwydd diffyg data sydd ar gael i'r cyhoedd. Yn nodedig, nid oedd gwybodaeth am nifer a gwerth y grantiau a ddyfarnwyd/hawliwyd ar gael i'r cyhoedd gan Lywodraeth Cymru ar adeg yr ymchwil; mae hyn yn cyferbynnu â chynlluniau tebyg yng ngwledydd eraill y DU.

5.19 Yn ogystal, nododd tri rhanddeiliad ganlyniadau negyddol, annisgwyl y tri chylch ariannu cyntaf. Roedd rhanddeiliaid yn credu bod gan y sector ganfyddiadau negyddol o'r WMFS oherwydd y problemau gyda'r tri chylch ariannu cyntaf, a gallai hyn atal busnesau/sefydliadau rhag ymgeisio yn y dyfodol. Dywedodd dau o'r rhanddeiliaid hyn sy'n ymgysylltu'n agos â busnesau yn y sector morol a physgodfeydd hefyd fod y profiad o'r cynllun hyd yma wedi arwain at waethygu teimlad ac ymddiriedaeth tuag at Lywodraeth Cymru o fewn y sector.

**Edrych ymlaen**

5.20 Rhoddodd y cyfweliadau â rhanddeiliaid a'r arolwg safbwyntiau defnyddiol ar sut y gellid diwygio'r WMFS o ran dyluniad a gweithrediad i sicrhau bod anghenion y sector yn cael sylw wrth symud ymlaen. Daeth chwe phrif thema i'r amlwg:

- **Strategaeth glir ar gyfer y sector sy'n llywio'r gweithgareddau a ariennir o dan y cynllun.** Cafwyd adborth cyffredinol o'r cyfweliadau y byddai'r cynllun yn elwa o gael set gliriach o flaenoriaethau strategol ar gyfer y sector yn gyffredinol, a fyddai yn ei dro yn llywio penderfyniadau buddsoddi o dan y cynllun. Byddai hyn yn helpu i roi eglurder ar y mathau o weithgareddau sy'n gymwys ar gyfer cyllid. Awgrymwyd y gallai cynnal ymarfer sganio'r gorwel/dadansoddi bylchau fod yn ddefnyddiol er mwyn deall yn well sut mae WMFS yn cyd-fynd â'r dirwedd ariannu, a sut y gellir targedu cylch ariannu penodol yn effeithiol i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau nodedig yn y cymorth.
- **Yn gysylltiedig â'r uchod, mwy o ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddylunio a gweithredu cylchoedd ariannu yn y dyfodol.** Nododd y rhai a gyfwelwyd yr angen am ymgysylltu ystyrlon â rhanddeiliaid (yn gynnar yn y broses) i gefnogi'r gwaith o gynllunio cylchoedd ariannu'r dyfodol. Roedd y teimlad y dylid rhoi ystyriaeth fwy gweithredol i safbwyntiau ac anghenion pysgotwyr a rhanddeiliaid morol eraill hefyd wedi'i adlewyrchu yn adborth arolwg y sector. Mewn perthynas â Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Ariannu y Môr a Physgodfeydd, roedd rhanddeiliaid o'r farn bod lle i wella ansawdd yr ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Grŵp, er enghraifft, trwy ddangos sut mae trafodaethau a chyngor gan y Grŵp wedi llywio'r broses o wneud penderfyniadau, a darparu diweddariadau mwy rheolaidd ar gynnydd cyflawni.
- **Newid y model ariannu i ganiatáu prosiectau amlflwyddyn.** Fel y nodir uchod, ystyrir bod y gallu i gynnal prosiectau amlflwyddyn yn rhoi'r potensial i gefnogi'r gwaith o weithredu prosiectau mwy strategol, gyda'r potensial i sicrhau mwy o fuddion i'r sector.
- **Cymysgedd o gymorth cyllid cyfalaf a refeniw.** Roedd barn gymysg ar y math o gymorth a fyddai fwyaf buddiol ar gyfer cylchoedd ariannu yn y dyfodol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'r adborth yn awgrymu y byddai cymysgedd o gyllid cyfalaf a refeniw yn fuddiol wrth symud ymlaen. O'r chwe ymatebydd i'r arolwg, nododd dau ffafriaeth am gyfalaf, nododd dau ffafriaeth am gyllid refeniw, a nododd dau ffafriaeth am y ddau fath. Roedd safbwyntiau cymysg tebyg gan y rhai a gyfwelwyd. Roedd rhai yn awyddus i gylchoedd y dyfodol gynnig cyllid cyfalaf yn unig tra bod eraill yn meddwl bod cymysgedd o gyfalaf a refeniw yn fwy priodol i ddiwallu anghenion pawb yn y sector.

- **Gwell marchnata a hyrwyddo'r cynllun.** Mae'r dystiolaeth gan ymgeiswyr llwyddiannus yn dangos bod marchnata a hyrwyddo yn cael eu hystyried yn ddigonol ar y cyfan, er bod rhai gwelliannau wedi'u hawgrymu. Yn yr un modd, mae adborth gan nifer fach o randdeiliaid yn awgrymu bod lle i wella mewn dwy agwedd: sicrhau bod marchnata a hyrwyddo yn glir ac yn hygyrch (h.y. trwy amrywiaeth o sianeli ar-lein/all-lein) ar gyfer y sector, a lle bo modd, darparu rhybudd ymlaen llaw (e.e. chwe mis) o gylchoedd sydd i ddod yn y dyfodol fel y gall busnesau/sefydliad gynllunio'n unol â hynny.
- **Proses ymgeisio symlach a mwy cymesur gyda mynediad at gymorth.** Ystyriwyd bod proses fwy cymesur yn bwysig i'r sector yn gyffredinol, ond yn arbennig ar gyfer sefydliadau sy'n gwneud cais am symiau llai o arian. Roedd dros hanner y rhanddeiliaid (pedwar) hefyd o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ailystyried y defnydd o system RPW ar-lein neu o leiaf newid y system (er enghraifft, trwy sicrhau bod pob cwestiwn yn uniongyrchol berthnasol i'r cynllun/sector), er mwyn sicrhau aliniad a pherthnasedd i'r sector morol a physgodfeydd. Yn yr arolwg, symlrwydd y broses ymgeisio oedd y ffactor pwysicaf o ran dylanwadu ar ddiddordeb ac ymgysylltu â chylchoedd ariannu'r dyfodol (sgôr cyfartalog o 4.8 allan o 5[35]). Byddai cymorth ychwanegol gyda'r broses ymgeisio hefyd yn cael ei groesawu gan randdeiliaid; gallai hyn olygu dyrannu adnoddau ar gyfer hyrwyddwyr / ymgynghorwyr i gefnogi ceisiadau a/neu gymorth ychwanegol yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. O ran yr amser o'r flwyddyn ar gyfer y cyfnod ymgeisio, cafwyd adborth cymysg o'r arolwg, ond yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn ffafrio'r gaeaf.

5.21 Roedd adborth gan rai rhanddeiliaid yn nodi bod rhai o'r gwersi a ddysgwyd o gynllunio a chyflawni'r tri chylch ariannu cyntaf eisoes wedi llywio'r gwaith o roi'r pedwerydd cylch ar waith. Yn benodol, cyfeiriwyd at feini prawf cymhwysedd ehangach a mwy o hyblygrwydd ynghylch cyllid cyfalaf. Mae hyn yn cyd-fynd ag adborth gan Lywodraeth Cymru ynghylch gweithredu newidiadau yng Nghylch 4. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys darparu cyllid cyfalaf a refeniw (tra bod cylchoedd blaenorol naill ai'n refeniw/cyfalaf yn unig), mwy o gategorïau ariannu i

[35] Lle mae un ddim yn ddylanwadol iawn a phump yn ddylanwadol iawn

gefnogi ystod eang o brosiectau, a dangosyddion canlyniadau mwy perthnasol i ymgeiswyr ddewis ohonynt, yn seiliedig ar y categori a ddewiswyd ganddynt.

*Blaenoriaethau ar gyfer cylchoedd ariannu yn y dyfodol*

5.22 O fewn cylch gwaith WMFS, gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg pa weithgareddau (o’r rhestr o 18 o weithgareddau cymwys) y credent y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer unrhyw gylchoedd ariannu sydd i ddod.[36] Ar draws yr ymatebion, dewiswyd un ar ddeg o wahanol weithgareddau. Fodd bynnag, y blaenoriaethau a nodwyd amlaf (gan dri ymatebydd yr un) oedd:

- ‘Gweithgareddau sy’n cefnogi arallgyfeirio busnesau’. Roedd enghreifftiau penodol o weithgareddau yn cynnwys arallgyfeirio i ail werthiant[37], defnyddio llongau treillio pysgota ar gyfer profiadau dydd i aelodau’r cyhoedd, a chynhyrchu rhywogaethau ar gyfer prosiectau adfer morol a phrosiectau i gefnogi enillion net bioamrywiaeth.
- ‘Gweithgareddau sy’n hybu creu swyddi ac yn annog newydd-ddyfodiaid i’r diwydiannau morol, pysgota a dyframaethu’. Roedd y gweithgareddau a awgrymir yn canolbwyntio ar gymorth i hyrwyddo pysgota fel gyrfa a chyflwyno hyfforddiant/cyrsiau ar gyfer newydd-ddyfodiaid i’r sector.
- ‘Gweithgareddau sy’n cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy safleoedd dyframaethu’. Roedd y gweithgareddau a awgrymwyd yn cynnwys ymchwil pellach i ansawdd dŵr, o ystyried ei bwysigrwydd i ddyframaethu yn arbennig, a defnyddio dull systemau ar gyfer ymchwil (o’r ‘môr i’r plât’) i ystyried pob rhan o’r gadwyn gyflenwi. Ymhlith pethau eraill, nododd ymatebwyr y byddai’r ymchwil hwn yn helpu i ddarparu tystiolaeth i gefnogi trwyddedu sy’n angenrheidiol i gynhyrchwyr newydd a phresennol weithredu.

5.23 Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oedd ganddynt ddiddordeb mewn gwneud cais am gylchoedd ariannu posibl yn y dyfodol o dan WMFS ar raddfa o un i bump (lle’r oedd un yn cyfateb i ddim diddordeb o gwbl a phump yn ddiddordeb mawr). Roedd gan bob un o’r chwe ymatebydd ddiddordeb (gan ei raddio’n dri neu’n uwch) mewn cylchoedd ariannu yn y dyfodol a oedd yn canolbwyntio ar weithgareddau a nodwyd ganddynt fel blaenoriaethau (fel y nodir uchod). Roedd y

[36] Gallai ymatebwyr yr arolwg ddewis hyd at dri gweithgaredd
[37] h.y. mae eisoes wedi'i brynu o'r blaen

diddordeb yn fwy cyffredinol ar gyfer cylchoedd ariannu sy'n canolbwyntio ar weithgareddau eraill yn is, ond dim ond un ymatebydd a nododd nad oedd ganddynt ddiddordeb yn y cymorth hwn.

# 6. Dysgu gan raglenni eraill

6.1 Mae'r adran hon yn ystyried gwersi o ddau fath cyffredinol arall o raglenni: (a) rhaglenni tebyg i WMFS a ddarparwyd gan wledydd eraill y DU, yn dilyn y DU yn ymadael â'r UE a (b) rhaglenni perthnasol eraill a ddarperir yng Nghymru. Y rhaglenni yw:

- yng nghategori (a) y Cynllun Pysgodfeydd a Bwyd Môr (FaSS) yn Lloegr; Cronfa Forol yr Alban (MFS) yn yr Alban; a'r Gronfa Forol a Physgodfeydd yng Ngogledd Iwerddon (MFF(GI)).
- yng nghategori (b) Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF), Cynllun Meithrin Gallu Arfordirol, a Chymru Ystwyth.

6.2 Mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr adran hon wedi'i chasglu trwy adolygiad o ddata a dogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd, ac fe'i hategir gan gyfweliadau â chynrychiolwyr pob rhaglen.

6.3 Mae'r adran hefyd yn rhoi rhywfaint o wybodaeth ffeithiol am Gynllun Bwyd Môr y DU yn seiliedig ar adolygiad o ddata a dogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd. Ni chafodd y cynllun hwn ei gynnwys fel cymharydd ffurfiol oherwydd ei fod yn gynllun DU gyfan, yn hytrach na chynllun sydd wedi'i ddylunio a'i weithredu gan un o weinyddiaethau datganoledig y DU. Fodd bynnag, mae Cynllun Bwyd Môr y DU yn bwysig yn ei gyd-destun, fel ymyriad mawr yn y sector morol a physgodfeydd sy'n agored i fusnesau Cymru.

**Pwrpas ac ystyriaethau ar gyfer yr adolygiad cymaryddion**

6.4 Nodir pedwar pwynt mewn perthynas â'r adolygiad cymaryddion. Yn gyntaf, amlygir yn benodol nad diben yr adolygiad cymaryddion hwn oedd gwerthuso'r rhaglenni eraill na rhoi sylwadau ar eu cynnydd neu eu heffeithiolrwydd.

6.5 Yn ail, roedd yr hyn a ddysgwyd gan raglenni eraill yn cwmpasu'r hyn y gwelwyd ei fod wedi gweithio'n dda, a'r hyn y gwelwyd nad oedd wedi gweithio cystal (neu a fu'n her) er mwyn rhoi mewnwelediad i WMFS.

6.6 Yn drydydd, cydnabyddir bod cwmpas, graddfa, cyd-destun gweithredu, ac amodau polisi/rheoleiddio yn amrywio ar draws y rhaglenni, a gyda WMFS. Yn y cyd-destun hwn, nid ceisio nodi camau gweithredu penodol y gellir eu trosglwyddo neu eu

copïo i WMFS oedd y diben. Yn hytrach, y diben oedd nodi'r hyn a ddysgwyd er mwyn llywio syniadau/cynllunio gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

6.7 Yn bedwerydd, a gan dynnu ar y pwyntiau hyn, mae'r dysgu a nodir yn defnyddio tystiolaeth ar draws y tair rhaglen ym mhob categori; ni nodir adborth o gyfweliadau sy'n ymwneud â rhaglenni penodol (fel y cytunwyd gyda'r cyfweleion, er mwyn annog cyfranogiad a darpariaeth adborth manwl).

**Dysgu gan raglenni mewn gweinyddiaethau eraill yn y DU - Trosolwg o'r rhaglenni**

*Cynllun Pysgodfeydd a Bwyd Môr, Lloegr*

6.8 Mae'r Cynllun Pysgodfeydd a Bwyd Môr (FaSS), a weinyddir gan yr MMO ar ran Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), yn darparu buddsoddiadau i ddiogelu cynaliadwyedd, gwytnwch a ffyniant hirdymor y sector bwyd môr ledled Lloegr.[38]

6.9 Mae canlyniadau lefel uchel y mae'r cynllun yn anelu at eu cyflawni yn cynnwys:

- Creu sector mwy cynaliadwy a gwydn
- Hybu'r galw am fwyd môr o Loegr a chael mynediad i farchnadoedd newydd
- Gwella cyfranogiad trwy gyd-ddylunio a chyd-reoli
- Cyflawni statws amgylcheddol da trwy warchod ac adfer yr amgylchedd morol
- Cefnogi sero net trwy leihau allyriadau o fewn y diwydiant

6.10 Mae FaSS yn darparu cymorth ariannol ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi datblygiad y sectorau dal, prosesu a dyframaethu, ac ar gyfer prosiectau sy'n gwella'r amgylchedd morol. Ers agor yn 2021, mae'r cynllun wedi ymrwymo tua £27 miliwn i dros 1,300 o brosiectau, gyda'r cylch ariannu ddiweddaraf yn cau ym mis Mehefin 2024. Mae'r cynllun ar gael i ymgeiswyr y mae eu sefydliad a/neu longau wedi'u cofrestru yn Lloegr.

6.11 Ceisiodd FaSS ddarparu cymorth parhaus i'r sector pysgodfeydd yn Lloegr ar ôl ymadael â'r UE. Wedi dweud hyn, gwnaeth y rhaglen rai newidiadau o'i gymharu â'r cynllun EMFF, i sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn agosach â pholisi sy'n benodol i Loegr. Mae hyn yn cynnwys fframwaith strategol Seafood 2040 (SF2040) - sy'n

[38] Sefydliad Rheoli Morol (2024) Cynllun Pysgodfeydd a Bwyd Môr

pennu targed o ddyblu'r defnydd o fwyd môr y DU (o un dogn i ddau ddogn fesul person, yr wythnos) - a gefnogir gan strategaeth Dyframaethu Lloegr, sy'n nodi'r amcanion a'r egwyddorion ar gyfer y sector dros yr 20 mlynedd nesaf.[39] [40] Mae pedwar o'r pum canlyniad lefel uchel sy'n sail i FaSS yn uniongyrchol gysylltiedig â'r polisïau hyn. Mae'r canlyniad terfynol - cefnogi sero net trwy leihau allyriadau o fewn y diwydiant - yn perthyn yn agosach i Strategaeth Sero Net y DU, lle mae cychod pysgota a llongau morol yn cael eu crybwyll yn benodol fel cyfle i ddatgarboneiddio.[41] Cynlluniwyd dangosyddion sy'n cyd-fynd â phob un o'r canlyniadau hyn i sicrhau bod prosiectau sy'n gwneud cais am gyllid yn gallu dangos eu cyfraniad at nodau'r rhaglen.

*Cronfa Forol yr Alban, Yr Alban*

6.12 Ym mis Mawrth 2022 cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ei 'Gweledigaeth Economi Las', yn nodi sut mae gweithgareddau sy'n ymwneud ag amgylchedd morol yr Alban yn cyfrannu at ganlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.[42] Mae'r 'economi las' yn cwmpasu ystod eang o wahanol weithgareddau, gan gynnwys pysgodfeydd a dyframaethu, trafnidiaeth, cynhyrchu ynni a phorthladdoedd.

6.13 Mae Cronfa Forol yr Alban (MFS) yn un mecanwaith y mae Llywodraeth yr Alban yn ei ddefnyddio i gefnogi sectorau morol yr Alban, i helpu'r Alban i gyflawni Gweledigaeth yr Economi Las.[43] Mae'r MFS yn ariannu set amrywiol o brosiectau – gan gynnwys prosesu bwyd môr, gwelliannau i harbwr, ac ymchwil morol – a'r prif ofyniad yw bod prosiectau'n cyflawni yn erbyn o leiaf un o'r canlyniadau canlynol (sy'n cael eu hategu gan y Weledigaeth Economi Las, yn ogystal â Strategaeth Rheoli Pysgodfeydd 2020-2030, Strategaeth ar gyfer Bwyd Môr, a Strategaeth Rheoli Pysgodfeydd 2020-2030 yr Alban):

- Mae sectorau morol sefydledig a rhai sy'n dod i'r amlwg yn arloesol, yn entrepreneuraidd, yn gynhyrchiol ac yn gystadleuol yn rhyngwladol.

[39] Seafish (2021) Seafood 2040 - A Strategic Framework for England
[40] Huntington, T. a Cappell, R. (2020) English Aquaculture Strategy
[41] Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (2021) Net Zero Strategy: Build Back Greener
[42] Llywodraeth yr Alban (2022) Blue Economy Vision for Scotland
[43] Llywodraeth yr Alban (2024) Marine Fund Scotland 2024-2025

- Mae'r Alban yn arweinydd byd-eang mewn Bwydydd Glas iach, o ansawdd, wedi'u cynaeafu a'u ffermio'n gynaliadwy, ar gyfer ein poblogaeth ein hunain a thu hwnt.
- Mae Economi Las yr Alban yn gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd, gan gyfrannu at liniaru ac addasu i'r newid, gyda sectorau morol wedi'u datgarboneiddio, yn defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn cefnogi ymrwymiadau Sero Net yr Alban.
- Cymunedau ffyniannus, gwydn, iach, wedi'u hadfywio yn cael mynediad mwy cyfartal at y buddion y mae adnoddau cefnforol yn eu darparu.

6.14 Roedd yn rhaid i bob prosiect hefyd gyflawni yn erbyn pumed amcan, sef "Mae prosiectau a ariennir gan Gronfa Forol yr Alban yn rhoi gwerth am arian, yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus, yn dangos yn glir sut y maent wedi cyflawni eu canlyniadau, ac yn rhannu gwersi fel y gall prosiectau ddatblygu a gwella yn y dyfodol".

6.15 Lansiwyd y cynllun yn 2021 ac mae wedi cael tri chylch ariannu cyflawn hyd yma, ac mae asesiad o geisiadau pedwerydd cylch ar gyfer 2024-2025 yn mynd rhagddo ganol 2024. Ar draws y tri chylch cyntaf, ymrwymodd MFS arian i 271 o brosiectau gwerth tua £40m mewn dyfarniadau grant. Roedd hyn yn cynnwys £1.6m-£1.8m bob blwyddyn (cyfanswm o tua £5m) i Seafood Scotland (y sefydliad masnach a marchnata cenedlaethol ar gyfer Diwydiant Bwyd Môr yr Alban) i'w ddefnyddio i hyrwyddo Scottish Seafood yn ddomestig ac yn fyd-eang.[44] Roedd mentrau arwyddocaol eraill yn cefnogi cynnal a chadw harbwr, gwella seilwaith prosesu, a buddsoddiadau mewn technolegau cynaliadwy ar gyfer gweithrediadau mwy ecogyfeillgar.

*Cronfa Pysgodfeydd Morol, Gogledd Iwerddon*

6.16 Cynlluniwyd y Gronfa Pysgodfeydd Morol (GI) (MFF(GI)) i gefnogi gweithgaredd morol a physgodfeydd a helpu i gyflawni amcanion y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP) ac annog datblygiad Polisi Morol Integredig. Cynlluniwyd cyllid MFF(GI) i gefnogi pum maes blaenoriaeth:

[44] Llywodraeth yr Alban (2024) Marine Fund Scotland: grants awarded

- Hyrwyddo pysgodfeydd sy’n amgylcheddol gynaliadwy, yn effeithlon o ran adnoddau, yn arloesol, yn gystadleuol ac yn seiliedig ar wybodaeth
- Meithrin dyframaethu sy’n amgylcheddol gynaliadwy, yn effeithlon o ran adnoddau, yn arloesol, yn gystadleuol ac yn seiliedig ar wybodaeth
- Meithrin gweithrediad y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin
- Meithrin marchnata a phrosesu
- Meithrin gweithrediad Polisi Morol Integredig yr UE

6.17 Darparodd yr MFF(GI) gefnogaeth i brosiectau sy’n cyflawni twf economaidd cynaliadwy yn y sectorau pysgodfeydd môr a dyframaethu. Pwrpas y cynllun oedd parhau i ddarparu mecanwaith cymorth ariannol i Ogledd Iwerddon ar gyfer y sectorau pysgodfeydd, dyfroedd mewndirol, dyframaethu a morol, yn dilyn ymadawiad y DU â’r UE.

6.18 Cyflwynwyd yr MFF(GI) rhwng mis Mawrth 2021 a mis Mawrth 2024. Ym mis Ebrill 2024 datblygodd yr MFF(GI) i fod yn Gronfa’r Amgylchedd Morol a Physgodfeydd (MEFF) yn dilyn newidiadau polisi a’r gwersi a ddysgwyd wrth ddylunio a gweithredu’r cynllun cychwynnol. Rheolwyd y ddwy raglen gan Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA).

6.19 Ym mis Mawrth 2024, roedd yr MFF(GI) wedi ymrwymo cyllid i 77 o brosiectau gwerth cyfanswm o £3.7m (£48k fesul prosiect). Er bod FaSS ac MFS wedi’u cynllunio i ariannu amrywiaeth o brosiectau yr ystyriwyd eu bod yn cyflawni yn erbyn canlyniadau lefel uchel pob cynllun, roedd yr MFF(GI) wedi’i ddiffinio’n dynnach o ran pa weithgareddau yr oedd yn ceisio’u cefnogi. Ymdrinnir yn fras â gweithgareddau cymwys:

- buddsoddiad ar longau pysgota
- gwelliannau ynni ac ail-beiriannu cychod pysgota
- dyframaethu, prosesu a marchnata
- buddsoddiadau i gyfleusterau ar y lan
- partneriaeth, rhannu gwybodaeth, gwasanaethau cynghori, creu swyddi a hyfforddiant
- amgylchedd morol a physgota mewndirol.

*Cronfa Bwyd Môr y DU*

6.20 Yn 2022, lansiodd Defra ei Chronfa Bwyd Môr y DU gwerth £100m i gefnogi dyfodol hirdymor a chynaliadwyedd sector pysgodfeydd a bwyd môr y DU.[45] Mae Cronfa Bwyd Môr y DU yn cynnwys nifer o gynlluniau, o dan bedwar maes ariannu:

- seilwaith (dyrannwyd £65m)
- gwyddoniaeth ac arloesi (dyrannwyd £24m)
- sgiliau a hyfforddiant (dyrannwyd £10m)
- cymorth allforio (dyrannwyd £1m).

6.21 Nod y Cynllun Seilwaith, sy'n cyfrif am bron i ddwy ran o dair o ddyraniad cyllid Cronfa Bwyd Môr y DU, yw meithrin gallu ar draws cadwyn gyflenwi sector pysgota'r DU trwy fuddsoddi mewn porthladdoedd a harbyrau (Cylch 1 a 2), cymunedau arfordirol a moderneiddio fflyd (Cylch 3), a physgota môr hamdden (Cylch 4). Mae pob cylch bellach ar gau ar gyfer ceisiadau, gyda dim ond cylch tri yn dal i ddyrannu cyllid. Dyfarnodd Cylchoedd 1, 2, a 4 y Cynllun Seilwaith £56.25m i 30 o brosiectau ledled y DU.[46]

6.22 Mae'r maes ariannu gwyddoniaeth ac arloesi yn dosbarthu cyllid ar draws dau gynllun: cynllun Partneriaethau Gwyddor y Diwydiant Pysgota (FISP) a'r Gronfa Arloesi Bwyd Môr. Bellach wedi cau, dyfarnodd y cynllun FISP £13m i 41 o brosiectau cydweithredol rhwng sefydliadau ymchwil a diwydiant, mewn ymdrech i wella gwybodaeth am y sector pysgodfeydd a dyframaethu.[47] Lansiwyd y Gronfa Arloesi Bwyd Môr yn 2019, cyn dod yn rhan o Gronfa Bwyd Môr y DU yn 2021. Mae'r gronfa'n ceisio cefnogi technoleg a syniadau arloesol sy'n cael effaith sylweddol ar y diwydiant neu'r farchnad, gyda'r nod o hybu cynhyrchiant a chynaliadwyedd y sector.[48]

6.23 Darparodd y cyllid Sgiliau a Hyfforddiant tua £4.5m i brosiectau sy'n gwella ansawdd ac ystod yr hyfforddiant sydd ar gael ar gyfer y sectorau dal, prosesu, dyframaethu a hamdden.[49] Roedd hyn yn cynnwys £3m i Gymdeithas Cynhyrchwyr

---

[45] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (2024) UK Seafood Fund
[46] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (2024) UK Seafood Fund: Infrastructure Scheme - projects
[47] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (2023) UK Seafood Fund: Fisheries Industry Science Partnerships scheme
[48] Gronfa Arloesi Bwyd Môr y DU (2024) Seafood Innovation Fund
[49] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (2023) UK Seafood Fund: Skills and Training Scheme

Pysgod Gwyn yr Alban (SWFPA) i adeiladu Canolfan Ragoriaeth Bwyd Môr yr Alban – cyfleuster diwydiant gydag ystafelloedd dosbarth pwrpasol, ardaloedd ar gyfer hyfforddiant technegol, a mannau arddangos technoleg.

6.24 Mae'r £1m a ddyrannwyd i gymorth allforio bwyd môr yn ceisio cynyddu allforion bwyd môr y DU i farchnadoedd presennol, yn ogystal ag archwilio cyfleoedd mewn marchnadoedd newydd.[50]

6.25 Mae gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am ymgeiswyr llwyddiannus ar gyfer rhai o'r cynlluniau hyn, gan gynnwys lleoliad, sy'n rhoi syniad a yw busnesau yn y sector pysgodfeydd a bwyd môr yng Nghymru yn ymgysylltu'n llwyddiannus â Chronfa Bwyd Môr y DU. Er enghraifft, dyfarnwyd £3.8 miliwn i ddau brosiect yng Nghymru o dan Gynllun Seilwaith UKSF (Cylch 2) ond ni ddyfarnwyd cyllid i brosiectau yng Nghymru ar gyfer Cylchoedd 1 a 4.[51] Ni ddyfarnwyd cyllid i brosiectau yng Nghymru o dan ddau gylch cyntaf Cynllun Sgiliau a Hyfforddiant Cronfa Bwyd Môr y DU.[52]

**Dysgu gan raglenni mewn gweinyddiaethau eraill yn y DU - Pwyntiau dysgu ar gyfer WMFS**

6.26 Gan ddefnyddio'r ymchwil sylfaenol ac eilaidd, nododd yr adolygiad cymaryddion o raglenni mewn gweinyddiaethau eraill yn y DU bum pwynt dysgu allweddol ar gyfer WMFS:

- **Goblygiadau cylchoedd ariannu blynyddol.** Awgrymodd cyfweliadau y gall gofyniad i brosiectau gael eu cwblhau o fewn un flwyddyn, a chylch ariannu blynyddol cysylltiedig, atal gweithgareddau a chyfyngu ar y cymorth ar gyfer ymyriadau sy'n strategol, yn arloesol ac o bosibl yn drawsnewidiol (gan gynnwys lle gallai gweithgaredd fod angen gweithgareddau ymchwil a phrofi ymlaen llaw cyn y cam o'i weithredu yn llawn). Mewn rhai achosion, nodwyd ffafriaeth ar gyfer y gallu i gefnogi prosiectau amlflwyddyn, gyda mecanweithiau cyllidebol cysylltiedig i alluogi hyn. Yn y cyd-destun hwn, nodwyd bod FASS yn gweithredu cylchoedd ariannu cyfyngedig o ran amser/cystadleuaeth i ddechrau (ar gyfer y cam cyntaf, tan fis Hydref 2021) a oedd yn canolbwyntio ar fuddsoddi mewn

50 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (2024) UK Seafood Fund
51 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (2024) - UK Seafood Fund: Infrastructure Scheme - projects
52 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (2024) - UK Seafood Fund: Skills and Training Scheme – projects

meysydd penodol. Fodd bynnag, ni chafodd hyn dderbyniad cadarnhaol gan y diwydiant, ac felly addaswyd y cynllun i gynnwys ceisiadau treigl (o fis Ebrill 2022 i fis Mehefin 2024) a oedd yn cyflawni canlyniadau lefel uchel y rhaglen.

- **Tryloywder.** Mae'r tair rhaglen yng ngweinyddiaethau eraill y DU yn cyhoeddi manylion prosiectau a gefnogir ar-lein. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth hygyrch a thryloyw i'r sector am yr hyn sydd wedi'i gefnogi. Gall hyn helpu i annog ymgysylltiad a chyfranogiad mewn cylchoedd yn y dyfodol, a dangos natur a chwmpas y cymorth a ddarperir.
- **Ymgynghori ac ymgysylltu â'r diwydiant a rhanddeiliaid.** Mewn cyfweliadau, amlygwyd ymrwymiad i ymgysylltu â'r diwydiant, gan gynnwys busnesau unigol a rhanddeiliaid allanol megis grwpiau cynrychioli, er mwyn llywio'r gwaith o ddylunio'r cynllun, a chefnogi gweithredu dilynol. Cydnabuwyd bod hyn yn cymryd amser ac adnoddau penodol, gan gynnwys galluogi gweithgaredd personol i ymgysylltu'n weithredol â buddiolwyr posibl.
- **Gweithio traws-lywodraeth.** Nodwyd bod ymgysylltu a chysylltiadau effeithiol ag adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth yn bwysig, ar lefel ddatganoledig/cenedlaethol a'r DU. Teimlwyd bod hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod cynlluniau'n gallu ymateb i, a diwallu, anghenion diwydiant a'u bod yn cyd-fynd â'r cymorth ehangach a gynigir gan y sector ar lefel polisi. Gall hefyd helpu i leihau dyblygu a sicrhau bod gweithgaredd yn ategu cymorth arall sydd ar gael.
- **Materion capasiti.** Gan drawstorri'r pwyntiau uchod, thema bwysig o'r adolygiad cymaryddion o raglenni eraill y DU oedd yr angen i sicrhau bod digon o gapasiti cyflawni a rheoli, i alluogi ymgysylltu effeithiol â rhannau eraill o'r llywodraeth, diwydiant a rhanddeiliaid, a chyfathrebu gweithredol, ochr yn ochr â gweithgareddau craidd rheoli rhaglen.

6.27 Amlygodd yr adolygiad cymaryddion hefyd fod heriau tebyg ar gyfer rhaglenni sector cyhoeddus eraill. Mae'r heriau hyn yn cynnwys y gallu i ymgysylltu'n llwyddiannus â'r sector pysgodfeydd a morol oherwydd nodweddion y diwydiant (er enghraifft, natur dameidiog y sector a lefel mabwysiadu technoleg). Mae hefyd yn heriol i'r sector ganfod arian cyfatebol, a allai gyfyngu ar ymgysylltiad rhai rhannau o'r diwydiant, gan gynnwys microfusnesau a busnesau bach. Ni nododd yr adolygiad cymaryddion unrhyw ateb unigol na syml yma. Fodd bynnag, yn gyson â'r

hyn a ddysgwyd uchod, nodwyd bod ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid, prosesau ymgeisio cymesur a hygyrch, a negeseuon a chyfathrebu cyson yn bwysig gan swyddogion polisi sy'n cefnogi rhaglenni eraill yn y DU i geisio lliniaru'r heriau hyn. Daeth aliniad cryf rhwng gweithgareddau'r rhaglen ag agendâu anghenion a pholisi a nodwyd, a blaenoriaethau strategol clir hefyd i'r amlwg fel themâu pwysig yn y cyd-destun hwn.

**Dysgu gan raglenni eraill Llywodraeth Cymru - Trosolwg o'r rhaglenni**

*Cronfa Pysgodfeydd Morol Ewrop*

6.28 Cafodd Cronfa Pysgodfeydd Morol Ewrop (EMFF) ei chyd-ariannu gan Lywodraeth Cymru a'r UE. Wedi'i chyflwyno yn 2014, dros gyfnod rhaglen 2014-2020, derbyniodd y rhaglen ddyraniad cyllid o €19.7 miliwn. MMO y DU oedd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am reoli'r rhaglen weithredol; fodd bynnag, yng Nghymru fe'i darparwyd gan Lywodraeth Cymru a rhedwyd y broses ymgeisio/talu trwy system TG WEFO ac RPW.

6.29 Roedd y rhaglen yn ceisio darparu cymorth i bysgodfeydd, dyfroedd mewndirol, dyframaethu a'r sector morol. Darparwyd cymorth grant ar gyfer datblygu cynaliadwy o fewn y sectorau pysgota a dyframaethu, cadwraeth yr amgylchedd morol, a thwf a swyddi mewn cymunedau arfordirol.

*Cynllun Meithrin Gallu Arfordirol*

6.30 Nod y Cynllun Meithrin Gallu Arfordirol yw cefnogi prosiectau lleol mewn ardaloedd arfordirol ledled Cymru. Mae gan y cynllun gyllideb flynyddol o £500,000 ar gyfer prosiectau sy'n para pum mis neu fwy, gydag isafswm gwerth o £20,000. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ariannu'r cynllun rhwng 2023 a 2025. Gweinyddir a rheolir y cynllun gan dîm yng Nghyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), a chaiff cyllid ei gydgysylltu trwy Bartneriaethau Natur Lleol.

6.31 Mae'r Cynllun yn ceisio mynd i'r afael â'r heriau a achosir gan yr argyfwng hinsawdd trwy feithrin partneriaethau a chamau gweithredu a arweinir gan y gymuned ar gyfer adfer natur a chynaliadwyedd, gan feithrin gallu i gyflawni camau gweithredu cynaliadwy sy'n hybu twf ac adferiad mewn ardaloedd morol ac arfordirol. Mae'n annog cydweithio rhwng rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys cymunedau,

busnesau, awdurdodau lleol, a chyrff cyhoeddus eraill, i hwyluso ymdrechion adfer ac adfywio byd natur.

*Cymru Ystwyth*

6.32 Nod Cymru Ystwyth yw sicrhau cydweithrediad economaidd trawsffiniol a rhyngwladol ar draws buddiannau a rennir. Wedi'i weithredu gan Lywodraeth Cymru, mae tîm Cymru Ystwyth yn rhan o Uned Horizon Ewrop Llywodraeth Cymru.

6.33 Mae cyllid Cymru Ystwyth yn cefnogi ystod eang o weithgareddau; y prif ffocws yw canlyniadau sy'n sicrhau budd i Gymru. Mae'r cynllun yn darparu cymorth ariannol (refeniw) ar gyfer 'hadu' neu hwyluso gweithgaredd sy'n adeiladu partneriaethau trawsffiniol a rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys cymorth ariannol wedi'i anelu at ysgogi cyfranogiad Cymru yn rhaglen ymchwil ac arloesi flaenllaw'r Undeb Ewropeaidd, Horizon Ewrop, yn ogystal â chynlluniau ymchwil ac arloesi eraill megis cystadlaethau rhyngwladol UKRI, Eureka, a Chydweithrediad Ewropeaidd mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg (COST).

**Dysgu gan raglenni eraill Llywodraeth Cymru - Pwyntiau dysgu ar gyfer WMFS**

6.34 Nododd yr adolygiad cymaryddion o raglenni eraill Llywodraeth Cymru bum pwynt dysgu allweddol ar gyfer WMFS yn seiliedig ar adborth gan gyfweleion:

- **Systemau a phrosesau cymesur.** Teimlwyd bod datblygiad, gweithrediad a gwelliant parhaus systemau a phrosesau cymhwyso, asesu a monitro yn ffactor llwyddiant allweddol ar gyfer rhaglenni eraill. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod systemau a phrosesau'n hawdd eu deall ac yn cael eu cydnabod fel rhai sy'n gymesur â lefel y cymorth a gynigir. Mae hyn yn cynnwys systemau TG, a ystyriwyd yn arbennig o bwysig lle mae ymyriadau yn ceisio ymgysylltu â sectorau a busnesau (megis pysgodfeydd) a allai fod â llai o gysylltiad â mecanweithiau ar-lein a phrofiad llai ohonynt, o gymharu â sectorau eraill. Felly, nodwyd dod o hyd i ffordd i symleiddio systemau a gofynion TG (yn gyson â gofynion a meini prawf y cynllun) yn gam allweddol i feithrin ymgysylltiad iach.
- **Ffenestri ariannu a chyflawni prosiectau.** Gwelwyd bod cylchoedd ariannu blynyddol 'yn y flwyddyn' yn her. Amlygodd yr adolygiad cymaryddion y

manteision y gellid eu cyflawni – o ran ymgysylltu a galw a chynnydd dilynol o ran cyflawni a'r canlyniadau a gynhyrchir – o allu cynnig amseroedd arwain estynedig ar gyfer cynigion, a ffenestri cyflawni ar gyfer prosiectau, sy'n debygol o ymestyn ar draws sawl blwyddyn ariannol (fel sy'n briodol i natur y gweithgaredd).

- **Tryloywder.** Amlygodd cyfweliadau bwysigrwydd lledaenu gwybodaeth yn rheolaidd am yr hyn a ariannwyd, a (lle mae hyn ar gael) tystiolaeth am gyflawniadau a buddion prosiectau a ariennir. Gwelwyd bod yr ymrwymiad hwn i dryloywder yn helpu i gynnal ymgysylltiad gan ddarpar ymgeiswyr/buddiolwyr a rhanddeiliaid a phartneriaid ehangach.
- **Eglurder diben strategol.** Teimlwyd bod aliniad clir â blaenoriaethau polisi, gweledigaeth a diben strategol sefydledig, a grŵp targed clir a model gweithredu o'r cychwyn cyntaf yn helpu i hwyluso ymgysylltiad effeithiol ag ymgeiswyr (posibl). Teimlwyd hefyd bod yr eglurder hwn o ddiben strategol yn cryfhau ansawdd, ac aliniad a pherthnasedd y cynigion a dderbyniwyd.
- **Defnyddio rhwydweithiau a chysylltiadau presennol.** Roedd ymgysylltu â rhwydweithiau rhanddeiliaid presennol (e.e. grwpiau cynrychioli diwydiant, cymdeithasau seiliedig ar le ac ati) a defnyddio partneriaethau gwaith sefydledig yn ffactorau y teimlwyd eu bod wedi cefnogi darpariaeth effeithiol mewn rhaglenni eraill. Teimlwyd bod hyn wedi helpu i sicrhau ymgysylltiad, galluogi momentwm i gael ei gynhyrchu'n gyflymach (trwy adeiladu ar strwythurau a phrosesau presennol), ac felly o bosibl sicrhau canlyniadau cryfach yn y tymor hwy.

6.35 Amlygodd yr adolygiad cymaryddion o gynlluniau eraill Llywodraeth Cymru hefyd bwysigrwydd cyfathrebu effeithiol wedi'i dargedu wrth ymgysylltu â sectorau a diwydiannau traddodiadol a thameidiog, megis morol a physgota. Fodd bynnag, roedd heriau hyn hefyd yn cael eu cydnabod. Roedd y dysgu a nodir uchod yn ymwneud â chymesuredd systemau a phrosesau, a theimlwyd bod defnyddio rhwydweithiau a chysylltiadau presennol yn bwysig yn y cyd-destun hwn. Tynnwyd sylw hefyd at sicrhau bod capasiti ac adnoddau priodol ar gyfer timau rhaglen, gyda staff profiadol, gwybodus a hyblyg.

## 7. Casgliadau

7.1 Mae'r adran olaf hon yn nodi'r canfyddiadau allweddol yn erbyn cwestiynau'r ymchwil gwerthuso. Mae canfyddiadau sy'n ymwneud â'r hyn a weithiodd yn dda a'r hyn nad oedd cystal, a gwelliannau ar gyfer cylchoedd yn y dyfodol yn cael eu grwpio gyda'i gilydd.

**Gweithgareddau a gyflawnwyd trwy dri chylch ariannu cyntaf WMFS (RQ 1)**

7.2 Yn gyffredinol, cymedrol oedd maint y gweithgaredd a gyflawnwyd o dan y tri chylch ariannu cyntaf. Gyda'i gilydd, cafodd £73k mewn grantiau eu hawlio a'u cymeradwyo gan 14 o fuddiolwyr o dan gylchoedd ariannu Effeithlonrwydd Ynni a Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd ac Iechyd a Diogelwch. Nid oedd unrhyw ymgeiswyr llwyddiannus ar gyfer y cylch Mesurau Marchnata – ac felly ni chyflawnwyd unrhyw weithgaredd.

7.3 Lle cafodd gweithgaredd ei ariannu trrwy WMFS, yn gyffredinol fe'i darparwyd fel y'i bwriadwyd yn ôl ymgeiswyr llwyddiannus a gyfwelwyd/a ymatebodd i'r arolwg ar-lein. Galluogodd y cylch Iechyd a Diogelwch i amrywiaeth o eitemau gael eu prynu – gan gynnwys goleuadau chwilio, siacedi achub, radios llaw, ysgolion, biniau rhwyd, a systemau awtobeilot. Dywedodd yr holl ymgeiswyr bod yr offer hwn bellach yn cael ei ddefnyddio (neu ar gael i'w ddefnyddio pan gaiff ei fwriadu ar gyfer defnydd brys yn unig).

**Beth sydd wedi a heb weithio'n dda o ran proses ymgeisio a chyflawni WMFS hyd yn hyn, a gwelliannau a awgrymwyd ar gyfer cylchoedd ariannu'r dyfodol (RQs 2/3/4)**

7.4 Mae adborth gan ymgeiswyr llwyddiannus yn awgrymu bod y broses asesu, contractio a hawlio wedi gweithio'n dda ar y cyfan. Fodd bynnag, nodwyd rhai problemau gan gynnwys amserlenni (gyda pheth oedi wrth wneud penderfyniadau a chontractio), a chymhlethdod y gofynion hawlio. Arweiniodd dryswch ynghylch cymhwysedd gweithgaredd hefyd at geisiadau aflwyddiannus. Yn ogystal, dywedodd ymgeiswyr aflwyddiannus fod diffyg tryloywder yn y broses asesu, gyda lle i wella adborth ynghylch pam y buont yn aflwyddiannus.

7.5 Roedd yr ymgeiswyr llwyddiannus a gymerodd ran yn y gwerthusiad a'r rhanddeiliaid hefyd yn teimlo bod marchnata a hyrwyddo'r cynllun yn briodol ar y

cyfan. Wedi dweud hyn, awgrymodd nifer fach o ymgeiswyr a rhanddeiliaid y gellid bod wedi gwella marchnata a hyrwyddo er mwyn sicrhau bod negeseuon yn glir ac yn hygyrch i'r sector, a rhoi digon o rybudd (awtomataidd) i gefnogi cynllunio.

7.6 Cafwyd adborth sylweddol ar agweddau ar y broses ymgeisio nad oedd wedi gweithio cystal. Awgrymwyd llawer o'r pwyntiau a godwyd hefyd fel cyfleoedd i wella'r prosesau ymgeisio a chyflawni yn y dyfodol. Roedd lefel uchel o gonsensws gan ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus, a gan randdeiliaid, ar agweddau ar y broses ymgeisio nad oedd yn gweithio cystal. Roedd y pwyntiau allweddol fel a ganlyn:

- Nid oedd yr amser a lefel y wybodaeth oedd ei angen i gwblhau'r cais yn gymesur, yn enwedig ar gyfer busnesau/sefydliadau sy'n gwneud cais am grant bach. Roedd peth o'r dystiolaeth oedd ei hangen yn anodd i fasnachwyr unigol/microfusnesau ei darparu.
- Yn gysylltiedig â'r uchod, golygodd y model ariannu blynyddol unwaith y byddai'r broses ymgeisio wedi'i chwblhau, roedd y cyfnod ar gyfer darparu gweithgareddau ariannu yn fyr.
- Roedd diffyg eglurder ynghylch y mathau o weithgareddau y gellid eu hariannu trwy'r cynllun. Arweiniodd hyn at geisiadau anghymwys a pheth rhwystredigaeth gan ymgeiswyr.
- Dywedwyd bod system RPW ar-lein - a ddyluniwyd yn wreiddiol ar gyfer y sector amaethyddiaeth - yn anodd ei defnyddio, gan fod y sector morol a physgodfeydd yn anghyfarwydd i raddau helaeth â'r system. Hefyd, roedd rhai o'r cwestiynau'n anodd i fusnesau/sefydliadau morol a physgodfeydd eu cwblhau (er enghraifft, cyfrifo'r defnydd o danwydd yn y dyfodol a dalfeydd dyddiol), yn enwedig o ystyried yr amodau masnachu ansicr presennol.
- Gallai fod mwy o gefnogaeth yn ystod y broses ymgeisio. Gallai ymgeiswyr gysylltu ag RPW, ond codwyd rhai anawsterau gan gynnwys diffyg dealltwriaeth ymarferol/canfyddedig o ddealltwriaeth ymarferol o'r sector morol a physgodfeydd gan RPW.

7.7 Ar sail y dystiolaeth hon, mae rhai argymhellion ar gyfer proses ymgeisio a chyflawni cylchoedd ariannu WMFS yn y dyfodol; ymdrinnir â'r rhain yn Adran 8.

**I ba raddau y diwallwyd anghenion y sector mewn perthynas â thri chylch ariannu cyntaf WMFS? (RQ 6)**

7.8 Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw'r cynllun wedi diwallu anghenion y sector morol a physgodfeydd hyd yma. Mae hyn yn amlwg yn yr adborth ansoddol gan ymgeiswyr, yr arolwg sector ehangach, a rhanddeiliaid. Mae hefyd yn cael ei nodi gan lefel isel y galw am y ddau gylch ariannu cyntaf (Mesurau Marchnata ac Effeithlonrwydd Ynni a Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd), a maint bychan dilynol y gweithgaredd a gyflawnwyd; yn ymarferol, ychydig iawn o weithredwyr yn y sector sydd wedi'u cefnogi gan dri chylch ariannu cyntaf WMFS, a llai nag a ddisgwyliwyd gan Lywodraeth Cymru. Awgrymodd gwaith maes gyda rhanddeiliaid a nifer fach o'r sector ehangach efallai nad oedd gan rai aelodau o'r sector y gallu i wneud cais oherwydd ffactorau allanol megis ôl-effeithiau pandemig Covid-19 ac ymadael â'r UE, yn ogystal â phwysau chwyddiant – trafodir hyn ymhellach ym mharagraff 7.17 isod. Gallai hyn fod wedi cyfrannu at y lefelau diddordeb a cheisiadau ar gyfer y tair ffenestr ariannu gyntaf. Fodd bynnag, nododd rhanddeiliaid a'r sector ehangach hefyd ei bod yn debygol bod dyluniad a gweithrediad y cynllun wedi chwarae rhan – fel y crynhoir isod.

7.9 Pwysleisiodd adborth gan randdeiliaid fod y math o gyllid (h.y. refeniw yn unig) a materion yn ymwneud â'r mathau o weithgareddau y gellid eu hariannu wedi lleihau'r galw am y ddau gylch ariannu cyntaf. Er enghraifft, dadleuwyd bod y cylch Effeithlonrwydd Ynni a Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd yn canolbwyntio'n rhy gyfyng ar ymchwil / astudiaethau dichonoldeb, gyda chefnogaeth uniongyrchol (e.e. uwchraddio cychod i wella effeithlonrwydd tanwydd) yn cael ei ffafrio gan y sector ond nad oedd yn gymwys i gael cymorth. Cadarnhawyd hyn gan dystiolaeth arolwg y sector ehangach, gyda thri o bob pump o'r ymatebwyr yn nodi anghydweddiad rhwng y gweithgaredd y gellid ei ariannu/y math o gyllid sydd ar gael ac anghenion eu busnes/sefydliad fel rhesymau dros beidio â gwneud cais am y cynllun.

7.10 Gwelodd y cylch Iechyd a Diogelwch fwy o ymgysylltu ac yn gyffredinol roedd yn diwallu anghenion ymgeiswyr llwyddiannus. Wedi dweud hyn, gyda thua thraean o ymgeiswyr cymeradwy (7 o 22) heb hawlio'r grant, roedd y gyfradd drosi o gymeradwyo cais i gymeradwyo hawliad yn isel o ystyried natur yr ymyriad - cost safonol ar gyfer eitemau cymwys a oedd wedi'u rhag-gymhwyso. Gallai hyn

adlewyrchu'n rhannol rai o'r heriau a amlinellwyd uchod, er enghraifft, mathau/manyleb yr offer sy'n gymwys i gael cyllid, a'r amserlenni ar gyfer prynu a hawlio offer. Yn nodedig, y prif reswm pam na hawliodd ymgeiswyr cymeradwy oedd anallu i ddod o hyd i'r offer a oedd yn ymateb i'r manylebau gofynnol.

7.11 Roedd yr adborth gan randdeiliaid yn pwysleisio bod galw mawr o fewn y sector am gymorth ariannol ac wedi'i dargedu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y sector morol a physgodfeydd. Felly, mae lefel isel yr ymgysylltu yn debygol o ddangos sut y gallai fod angen alinio dyluniad a gweithrediad y cynllun yn agosach ag anghenion y sector (fel y nodir mewn man arall, er enghraifft gweler paragraff 5.9).

7.12 Er mwyn mynd i'r afael ag anghenion y sector yn effeithiol, teimlwyd bod eglurder ynghylch anghenion a blaenoriaethau'r sector yn hollbwysig. Amlygodd adborth gan randdeiliaid ac ymgeiswyr llwyddiannus/aflwyddiannus bwysigrwydd ymgysylltu a chydweithio parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector i bennu'r blaenoriaethau allweddol a ddylai, yn eu tro, lywio'r gwaith o ddylunio a gweithredu cynlluniau ar gyfer cylchoedd y dyfodol. Awgrymodd dau ymgeisydd llwyddiannus y gallai hyn gynnwys mwy o bresenoldeb Llywodraeth Cymru mewn porthladdoedd i feithrin mwy o ddeialog rhwng y diwydiant a llunwyr polisi.

7.13 Yn ogystal, roedd rhanddeiliaid o'r farn bod lle i wella ansawdd yr ymgysylltu rhwng Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Cyllid y Môr a Physgodfeydd a Llywodraeth Cymru. Gallai hyn gynnwys darparu diweddariadau mwy rheolaidd ar gynnydd i'r Grŵp, a Llywodraeth Cymru yn annog ac yn hwyluso trafodaeth a her adeiladol gan y Grŵp. Gallai hyn hefyd gynnwys adborth penodol gan Lywodraeth Cymru ar sut mae trafodaeth a chyngor gan y Grŵp wedi llywio gweithgaredd a phenderfyniadau i ddangos gwrando gweithredol ac ymrwymiad.

7.14 Nodir hefyd yn benodol bod y gwerthusiad yn cwmpasu'r tri chylch cyntaf, a gyflawnwyd yn gyflym ac a oedd yn gweithio mewn tirwedd heriol oedd yn esblygu. Mae tystiolaeth hefyd bod WMFS wedi cydnabod ac addasu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau a gafwyd. Roedd hyn yn cynnwys darparu cyllid cyfalaf yng Nghylch 3, a throi Cylch 4 (sydd y tu allan i gwmpas y gwerthusiad hwn) i gynnwys cyllid cyfalaf a refeniw, darparu mwy o gategorïau cyllid i gefnogi ystod eang o brosiectau, a datblygu dangosyddion canlyniadau mwy perthnasol.

**Beth yw’r rhesymau pam y gallai unigolion, sefydliadau a busnesau yn y sector morol a physgodfeydd fod wedi dewis peidio â gwneud cais am gyllid trwy WMFS? (RQ 7)**

7.15 Ceisiodd y gwerthusiad ymgysylltu’n eang â’r sector trwy arolwg ar-lein a ddosbarthwyd sawl gwaith gan Lywodraeth Cymru a chymdeithasau sector, cyrff a sefydliadau yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd y gyfradd ymateb yn isel. Felly, mae’r sylfaen dystiolaeth ar y rhesymau pam y gallai busnesau/sefydliadau yn y sector fod wedi dewis peidio â gwneud cais am gyllid trwy WMFS yn gyfyngedig a dylid bod yn ofalus wrth ddehongli’r canfyddiadau. Fodd bynnag, awgrymodd yr arolwg sector ehangach fod diffyg capasiti i gwblhau’r broses ymgeisio a cham-aliniad rhwng blaenoriaethau busnes/sefydliad a’r math o weithgaredd y gellid ei ariannu a’r math o gyllid sydd ar gael (h.y. cyfalaf / refeniw) yn rhesymau allweddol dros beidio â gwneud cais.

7.16 Hefyd, mae’r adborth gan ymgeiswyr a rhanddeiliaid ar agweddau ar ddylunio a gweithredu’r cynllun nad oedd yn gweithio cystal a nodir uchod yn rhoi tystiolaeth bellach ynghylch pam y gallai busnesau/sefydliadau fod wedi dewis peidio â gwneud cais i’r cynllun. Thema gyson gan randdeiliaid oedd cymhlethdod gwirioneddol neu ganfyddedig y broses ymgeisio, y teimlwyd oedd wedi atal ymgeiswyr. Roedd yr amserlenni tynn ar gyfer cyflawni hefyd yn rhwystr.

7.17 Yn ehangach, mae’n bwysig ystyried y cyd-destun y mae’r cynllun wedi’i gyflwyno ynddo. Mae data eilaidd yn dangos bod y sector pysgodfeydd yng Nghymru wedi lleihau mewn termau absoliwt yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae Cymru wedi profi gostyngiad yn nifer y cychod a thunelledd gros ers 2017. Gostyngodd nifer y pysgotwyr rheolaidd hefyd yng Nghymru rhwng 2021 a 2022. Mae’n debygol y gall y tueddiadau hyn gael eu hegluro’n rhannol gan ddylanwadau allanol (e.e. ymadael â’r UE a chynnydd mewn costau ynni). Er enghraifft, ers ymadael â’r UE, ni all y DU allforio allforion dwygragennog byw (megis cocos, wystrys, cregyn gleision a chregyn bylchog) o ddyfroedd nad ydynt yn Ddosbarth A. Fodd bynnag, mae llawer o gynhyrchwyr yng Nghymru yn gweithredu mewn dyfroedd Dosbarth B, ac felly ni allant fasnachu â’r UE oni bai bod molysgiaid dwygragennog byw yn cael eu puro. Mae’r adborth gan randdeiliaid hefyd yn nodi bod y ffactorau allanol hyn wedi dylanwadu ar y galw am y tri chylch ariannu cyntaf oherwydd eu heffaith ar

hyfywedd hirdymor, a gallu i fuddsoddi, llawer o fusnesau/sefydliadau ar draws sector pysgodfeydd a morol Cymru.

**A fu unrhyw ganlyniadau anfwriadol o ddarparu cyllid trwy WMFS? (RQ 8)**

7.18 Mae adborth gan randdeiliaid ac ymgeiswyr yn awgrymu y bu rhai canlyniadau anfwriadol andwyol o dri chylch ariannu cyntaf y cynllun. Mynegodd rhai ymgeiswyr eu hamharodrwydd i wneud cais am unrhyw gylchoedd ariannu yn y dyfodol os bydd y broses yn aros yr un fath, oherwydd ystyrir bod y broses ymgeisio yn anghymesur â'r dyfarniad ariannol posibl.

7.19 Yn ogystal, cododd rhanddeiliaid bryderon bod gan y sector ganfyddiadau negyddol o'r WMFS oherwydd y problemau gyda'r tri chylch ariannu cyntaf, a gallai hyn atal busnesau/sefydliadau rhag ymgeisio yn y dyfodol. Dywedodd dau randdeiliad hefyd fod y cynllun wedi arwain at waethygu teimlad ac ymddiriedaeth tuag at Lywodraeth Cymru o fewn y sector.

7.20 Wedi dweud hynny, roedd cydnabyddiaeth ymhlith rhai rhanddeiliaid yn y sector bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio ymateb mewn amser real i'r gwersi a ddysgwyd fel y nodir uchod (h.y. darparu cyllid cyfalaf yng Nghylchoedd 3 a 4, paragraff 7.8). Teimlwyd bod hyn yn helpu i liniaru'r canlyniadau anfwriadol andwyol hyn.

**Pa wersi gellir eu dysgu gan Weinyddiaethau eraill y DU sy'n darparu cynlluniau ariannu tebyg? (RQ 9)**

7.21 Nododd yr adolygiad cymaryddion o raglenni tebyg mewn gweinyddiaethau eraill yn y DU sawl pwynt dysgu allweddol ar gyfer WMFS:

- **Goblygiadau cylchoedd ariannu blynyddol.** Mewn rhai achosion, nodwyd ffafriaeth o ran y gallu i gefnogi prosiectau amlflwyddyn, gyda mecanweithiau cyllidebol cysylltiedig i alluogi hyn.
- **Tryloywder.** Mae cyhoeddi'r grantiau/prosiectau a ddyfarnwyd ar-lein yn darparu gwybodaeth hygyrch a thryloyw i'r sector am yr hyn sydd wedi'i gefnogi. Gall hyn helpu i annog ymgysylltiad a manteisio ar y cylchoedd yn y dyfodol, a dangos natur a chwmpas y cymorth a ddarperir.
- **Ymgynghori ac ymgysylltu â diwydiant a rhanddeiliaid.** Pwysigrwydd neilltuo digon o amser ac adnoddau i ymgysylltu â'r diwydiant, gan gynnwys busnesau

unigol a rhanddeiliaid allanol i lywio’r broses o ddylunio cynlluniau, a chefnogi’r broses o’i rhoi ar waith wedi hynny.

- **Gweithio traws-lywodraeth.** Dylid annog ymgysylltu a chreu cysylltiadau effeithiol ag adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth, ar lefel ddatganoledig/cenedlaethol a’r DU. Mae hyn yn helpu i leihau dyblygu a sicrhau’r aliniad mwyaf posibl ar draws gwahanol gynlluniau ariannu.
- **Materion capasiti.** Gan drawstorri’r pwyntiau uchod, mae digon o gapasiti cyflawni a rheoli yn allweddol, i alluogi ymgysylltu effeithiol â rhannau eraill o’r llywodraeth, diwydiant a rhanddeiliaid, a chyfathrebu gweithredol, ochr yn ochr â gweithgareddau craidd rheoli rhaglen.

7.22 Yng nghyd-destun ymgysylltu’n llwyddiannus â’r sector morol a physgodfeydd, daeth pwysigrwydd sicrhau aliniad cryf rhwng gweithgareddau’r rhaglen ag anghenion sector a nodwyd a blaenoriaethau strategol clir hefyd fel themâu allweddol o’r adolygiad cymaryddion o raglenni eraill y DU.

*7.23* Mae’r gwersi y gellir eu dysgu o ddyluniad a gweithrediad rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â’r rhai uchod. Amlygwyd pwysigrwydd systemau a phrosesau ymgeisio a chyflawni cymesurol hefyd, ochr yn ochr â chyllid amlflwyddyn a ffenestri cyflawni prosiectau, tryloywder, eglurder diben strategol, a defnyddio rhwydweithiau a chysylltiadau sy’n bodoli’n barod yn y sector.

**A oes modd nodi unrhyw effeithiau tymor byr o’r WMFS? (RQ 10)**

7.24 Cyfyngedig yw’r dystiolaeth o effeithiau tymor byr o WMFS ar hyn o bryd. Mae hyn yn adlewyrchu i raddau helaeth y lefelau isel o ymgysylltu â’r tri chylch ariannu cyntaf. Wedi dweud hyn, mae rhywfaint o dystiolaeth o effeithiau tymor byr cadarnhaol yn ymwneud ag arferion gwaith mwy diogel, mwy o gapasiti ar gyfer dal/storio, ac offer mwy effeithlon yn arwain at fuddiannau posibl o ran cynhyrchiant a chost.

7.25 Mae adborth hefyd yn awgrymu y byddai mwy o dryloywder – yn benodol, adrodd yn gyhoeddus ar nifer a gwerth prosiectau cymorth – yn helpu rhanddeiliaid i ddeall a chyfathrebu cyfraniad y cynllun. Fel y nodwyd uchod ym mharagraff 6.25, efallai y bydd cyhoeddi data ar y cynllun hefyd yn helpu i hybu ymrwymiad ac ymgysylltiad ehangach y sector wrth i’r cynllun weithredu cylchoedd ariannu yn y dyfodol.

## 8. Argymhellion

8.1 Ar sail y dystiolaeth o'r gwerthusiad hwn o'r broses, mae deg argymhelliad wedi'u nodi i lywio'r gwaith o ddylunio a gweithredu cylchoedd ariannu'r WMFS yn y dyfodol. Nodir argymhellion yn ymwneud â 'strategaeth a dyluniad' y cynllun yn gyntaf, ac yna argymhellion yn ymwneud â 'gweithrediad a rheolaeth' y cynllun'.

**Argymhellion 'strategaeth a dyluniad' y cynllun**

*Argymhelliad 1: Diffinio nodau a diben cyffredinol y cynllun yn fwy penodol, cyson a chlir.*

8.2 Cafwyd adborth cyson y byddai'r WMFS yn elwa gan ddatganiad wedi'i adnewyddu a chlir o nodau a blaenoriaethau hirdymor, sydd yn ei dro yn llywio penderfyniadau buddsoddi (h.y. ffocws cylchoedd ariannu yn y dyfodol). Byddai hyn yn sicrhau mwy o aliniad ag anghenion y diwydiant ac eglurder ynghylch y mathau o weithgareddau sy'n gymwys ar gyfer cyllid. Dylai hyn gyd-fynd â – ond symud y tu hwnt i'r – nodau fel y maent ar hyn o bryd[53] i nodi blaenoriaethau'r cynllun, a'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni ar gyfer y sector.

8.3 Er mwyn llywio hyn, efallai y byddai ymarfer dadansoddi bylchau yn ddefnyddiol i ddiffinio 'cydweddiad' WMFS o fewn y dirwedd ariannu ehangach, a sut orau i dargedu cylchoedd ariannu yn y dyfodol er mwyn diwallu anghenion y sector. Dylai hyn gynnwys ymarfer ymgysylltu sylweddol ac eang â'r diwydiant (e.e. trwy weithdai, arolygon, fforymau trafod) i ddangos yn gyhoeddus ac yn glir ymrwymiad y rhaglen (a Llywodraeth Cymru) i ymateb i anghenion y diwydiant.

*Argymhelliad 2: Gwella cyfathrebu ac ymgysylltu â'r sector lle bo hynny'n ymarferol ac yn gymesur er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio cylchoedd ariannu yn y dyfodol.*

8.4 Awgrymir y dylai Llywodraeth Cymru archwilio ar y cyd â Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Cyllid y Môr a Physgodfeydd y mecanwaith(au) mwyaf priodol ar gyfer lefel uwch o ymgysylltu â'r sector. Dylai hyn gynnwys mecanweithiau ymgysylltu ar unwaith a pharhaus yn y tymor hwy er mwyn cynnal cyfranogiad ac ymrwymiad y sector.

---

[53] Llywodraeth Cymru (2022) Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru: canllawiau perthnasol i bob rownd

*Argymhelliad 3: Archwilio'r posibilrwydd o addasu'r model ariannu blynyddol presennol gyda Llywodraeth y DU.*

8.5 Dylai ymgysylltu â Llywodraeth y DU i geisio galluogi'r rhaglen i roi'r cyfle i gefnogi prosiectau amlflwyddyn, a llacio'r gofyniad i geisiadau a gweithgareddau gael eu cyflwyno o fewn cylch ariannu blwyddyn, gael ei ystyried yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru.

*Argymhelliad 4: Parhau i gynnig cymysgedd o gymorth cyllid cyfalaf a refeniw lle bo'n briodol.*

8.6 Gellid darparu cyllid cyfalaf a refeniw o dan yr un cylchoedd ariannu neu ar wahân, yn ôl yr angen ac yn gyson ag amcanion y cylch. Yn y cyd-destun hwn, byddai'n fuddiol gwerthuso effeithiolrwydd cynnig y ddau fath o gyllid yng Nghylch 4 o gymharu â naill ai refeniw neu gyfalaf mewn cylchoedd blaenorol.

**Argymhellion 'gweithrediad a rheolaeth' y cynllun**

*Argymhelliad 5: Ar gyfer unrhyw gylchoedd cost safonol yn y dyfodol, archwilio'r posibilrwydd o ymgorffori mwy o hyblygrwydd o ran manylebau (e.e. cyfarpar pwrpasol) a/neu'r gallu i ymgeiswyr gyflwyno'r achos dros brynu offer arall i annog galw ac aliniad ag anghenion y diwydiant.*

8.7 Bydd y rheidrwydd i gydbwyso mwy o hyblygrwydd â sicrhau gwerth am arian i'r cyhoedd yn bwysig wrth symud yr argymhelliad hwn yn ei flaen. Gallai trafodaethau â rhaglenni eraill yn y DU fod yn ddefnyddiol yn y cyd-destun hwn (gweler Argymhelliad 10 isod).

*Argymhelliad 6: Ar gyfer cylchoedd ariannu'r dyfodol, gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant a rhanddeiliaid i sicrhau bod nodau'r cylch a gyhoeddir yn dryloyw, yn ddiamwys ac yn cael eu deall yn llawn gan y sector.*

8.8 Roedd y cylchoedd o fewn cwmpas y gwerthusiad hwn wedi nodi'n glir nodau a meini prawf cymhwyster. Fodd bynnag, yn ymarferol, roedd rhywfaint o ddryswch o ran canfyddiadau a dealltwriaeth y diwydiant. Cyfrannodd hyn at ddim neu ychydig iawn o geisiadau cymwys yn y ddau gylch cyntaf. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut i ddatblygu, profi ac o bosibl treialu'r defnydd o ddisgrifiadau nodau cylch gyda'r diwydiant, gan gynnwys trwy ddefnyddio mewnbwn Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Cyllid y Môr a Physgodfeydd.

*Argymhelliad 7: Rhoi cyfres o gamau gweithredu ar waith i sicrhau proses ymgeisio symlach a mwy cymesur, sy'n cynnwys mynediad at gymorth.*

8.9 Er mwyn cyflawni'r argymhelliad hwn dylai Llywodraeth Cymru, yn y tymor byr:

- adolygu'r system ymgeisio bresennol, a nodi cyfleoedd i symleiddio'r broses ymgeisio yn gyffredinol, neu o leiaf ar gyfer ceisiadau am grantiau llai/busnesau a sefydliadau llai; dylid rhoi gwybod i'r sector hefyd am unrhyw welliannau er mwyn annog ymgysylltu â chylchoedd yn y dyfodol
- nodi cyfleoedd i wella mecanweithiau cyfathrebu mewnol rhwng Tîm Polisi Ariannu'r Môr a Physgodfeydd ac RPW; y nod a ddylai fod yw sicrhau bod dealltwriaeth/gwybodaeth o'r sector yn llywio'r gwaith o ddylunio a gweithredu'r cynllun yn ymarferol.

8.10 Yn y tymor canolig, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnal adolygiadau opsiynau ar:

- parhau i ddefnyddio system RPW ar-lein, neu ddefnyddio system amgen
- darparu cymorth ychwanegol gyda'r broses ymgeisio i helpu i wella nifer ac ansawdd y ceisiadau; gallai hyn olygu dyrannu adnoddau ar gyfer hyrwyddwyr/ymgynghorwyr/rhanddeiliaid diwydiant i gefnogi ceisiadau a/neu gymorth ychwanegol yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

*Argymhelliad 8: Cynnwys amod y gellir rhannu gwybodaeth gyswllt ymgeisydd â Llywodraeth Cymru ac unrhyw werthuswyr dan gontract at ddiben gwerthuso yn hysbysiad preifatrwydd y cynllun.*

8.11 Dylai hyn helpu i sicrhau ymgysylltiad cryfach gan ymgeiswyr ag unrhyw werthusiadau o brosesau a/neu effaith y cynllun yn y dyfodol. Byddai angen bwrw ymlaen â hyn yn unol â GDPR perthnasol y DU a chanllawiau diogelwch gwybodaeth; dylid ceisio cyngor gan arbenigwyr o fewn Llywodraeth Cymru.

*Argymhelliad 9: Gwella tryloywder y cynllun trwy gyhoeddi data blynyddol ar brosiectau a gefnogir gan y cynllun (o fewn canllawiau GDPR y DU) o Gylch 3 ymlaen.*

8.12 Bydd darparu diweddariadau mwy rheolaidd ar gynnydd i aelodau Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Cyllid y Môr a Physgodfeydd (ac o bosibl, MAGWF a CaSP Cymru) yn helpu i wella tryloywder a dealltwriaeth gan y sector ar y cymorth a ddarperir.

*Argymhelliad 10: Ceisio sefydlu fforwm rheolaidd a phwrpasol ar gyfer pedair gwlad y DU i rannu gwybodaeth ac arfer gorau ar ddylunio a gweithredu cynlluniau morol a physgodfeydd.*

8.13 Byddai'r fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr o dîm Polisi Ariannu'r Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru a'u cymheiriaid yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Gan gyfarfod yn rheolaidd (e.e. ddwywaith y flwyddyn neu'n flynyddol) byddai'r fforwm yn archwilio beth sy'n gweithio'n dda a beth nad sydd cystal 'mewn amser real' ac yn rhannu arfer gorau ac adnoddau perthnasol i gefnogi darpariaeth effeithiol ym mhob awdurdodaeth.

## Atodiad A: Cyfweleion sy’n rhanddeiliaid

*Cyfweleion sy’n staff llywodraethu, rheoli a gyfwelwyd*

- Tri chynrychiolydd o Dîm Polisi Ariannu’r Môr a Physgodfeydd, Llywodraeth Cymru
- Uwch reolwr proses o Taliadau Gwledig Cymru

*Cyfweleion sy’n rhanddeiliaid*

- Cymru Ystwyth
- Diwydiant Dyframaethu Cymru
- Bangor
- CaSP Cymru
- Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon)
- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Llywodraeth y DU)
- Cyfarwyddiaeth Forol (Llywodraeth yr Alban)
- Rheoli Gorchymyn Pysgodfa Afon Menai
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Fforwm Arfordirol Sir Benfro
- Taliadau Gwledig Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Cymdeithas Pysgotwyr Cymru

## Atodiad B: Canllawiau pwnc cyfweliadau ag ymgeiswyr

### Canllawiau pwnc: ymgeiswyr llwyddiannus

*Cefndir a chyd-destun*

**C1. A wnewch chi roi trosolwg byr o’ch busnes/sefydliad, a’ch rôl?**

**C2. Cyn WMFS, a oedd eich busnes/sefydliad wedi gwneud cais yn flaenorol am a / neu wedi cael cyllid cyfalaf neu refeniw gan unrhyw gynlluniau eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru neu’r UE?**

**C3. Pam wnaethoch chi wneud cais am gylch ariannu [nodwch enw’r cylch] WMFS? Holwch mewn perthynas â:**

*Effeithiolrwydd Taith y Cwsmer*

**C4. Sut daethoch chi’n ymwybodol gyntaf o’r cylch ariannu [rhowch enw’r cylch] WMFS?**

**C5. A ellid bod wedi gwella marchnata a hyrwyddo’r WMFS mewn unrhyw ffordd? Os felly, sut?**

**C6. I ba raddau roedd cynnig a chwmpas y cylch ariannu [rhowch enw’r cylch] yn glir (h.y. fel yr eglurwyd yn hyrwyddiad a dogfennaeth/canllawiau cysylltiedig Llywodraeth Cymru) o ran:**

i. Y meini prawf cymhwyster

ii. Y math o grant oedd ar gael

iii. Y mathau o weithgareddau y gellid eu hariannu

iv. Maint y grant oedd ar gael

v. Y gyfradd ymyrraeth a gynigiwyd

**C7. [Effeithlonrwydd Ynni a Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd yn unig] A oes gennych unrhyw adborth ar y cam Datganiad o Ddiddordeb (DoDd) yn ymwneud â’r canlynol:**

i. A oedd y broses a’r dogfennau canllaw yn glir ac yn hawdd eu dilyn?

ii. A oedd y ceisiadau am wybodaeth ar y ffurflen DoDd yn glir ac yn rhesymol? A oedd unrhyw agweddau o’r ffurflen yn arbennig o anodd i’w llenwi ac, os oedd, pam?

iii. A oedd y cyfnod amser oedd ar gael i gwblhau’r DoDd yn ddigonol?

iv. A oedd yr amser rhwng DoDd a chais llawn yn briodol?

**C8. [Pawb] A oes gennych unrhyw adborth ar y cam ymgeisio (llawn) yn ymwneud â'r canlynol:**

i. A oedd y broses a'r dogfennau canllaw yn glir ac yn hawdd eu dilyn?

ii. A oedd y broses yn gymesur (h.y. o ran amser / cost) â maint y grant a gynigiwyd?

iii. A oedd y ceisiadau am wybodaeth yn y ffurflen gais yn glir ac yn rhesymol? A oedd unrhyw agweddau o'r cais yn arbennig o anodd i'w cwblhau ac, os oedd, pam?

iv. [Iechyd a Diogelwch yn unig] A wnaeth y rhestr o offer cymwys ddylanwadu ar yr offer y gwnaethoch gais amdano?

**C9. [Effeithlonrwydd Ynni a Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd yn unig] A oedd unrhyw fanteision neu anfanteision i'r broses ymgeisio dau gam?**

**C10. A gawsoch unrhyw gymorth gan hyrwyddwr a/neu gynghorwyr yn ystod eich proses ymgeisio?**

**C11. A gawsoch unrhyw gymorth gan unrhyw sefydliadau eraill (er enghraifft, sefydliadau sector, Taliadau Gwledig Cymru)?**

**C12. A oes gennych unrhyw sylwadau am y broses asesu mewn perthynas â'r canlynol:**

i. tryloywder y broses

ii. amser rhwng cyflwyno'r cais a derbyn contract

iii. defnyddioldeb yr adborth a roddwyd

**Q13. [Lle y gwnaed cais am gymorth yn flaenorol] Sut oedd proses ymgeisio, asesu a chontractio WMFS yn cymharu â phrosesau ymgeisio eraill am gymorth cyfalaf/refeniw sy'n gysylltiedig â'r sector?**

*Cyflawni gweithgaredd*

